



Adroddiad Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Dysgu o'r gorffennol i wneud y dyfodol yn fwy diogel

<p>Enw'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol: Caerdydd a'r Fro</p> <p>Enw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd</p>
<p>Cyfeirnod yr Achos: CV SUSR 01/2021</p>
<p>Ffugenw 1: James</p> <p>Ffugenw 2: Karen</p> <p>Ffugenw 3: Marcus</p> <p>Ffugenw 4: Gemma</p> <p>Ffugenw 5: Mary</p> <p>Ffugenw 6: Daniel</p>
<p>Dyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad: Hydref 2020</p>
<p>Dyddiad y farwolaeth lle y bo hynny'n berthnasol: Hydref 2020</p>
<p>Dyddiad cychwyn yr adolygiad (a gomisiynwyd): Chwefror 2021 Dyddiad cwblhau'r adolygiad (wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi): 15/04/2024 Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2025</p>



- 1.1** Cysylltodd Llywodraeth Cymru â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd i dreialu'r adolygiad hwn dan broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yn 2020. Roedd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd, ynghyd â Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro, yn gwbl gefnogol i'r gwaith o dreialu'r achos hwn dan y fethodoleg hon, gyda'r nod o wella ymgysylltiad â theuluoedd a rhoi dysgu o adolygiadau ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- 1.2** Yn anffodus, arweiniodd y ddeinameg gymhleth ynghylch y trefniadau cyfreithiol a llywodraethu ar gyfer y broses ADUS, at oedi wrth symud ymlaen â'r adolygiad fel y rhagwelwyd. Mewn ymateb i rwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, bu'n rhaid dod i gytundeb pwrpasol, er mwyn sicrhau y byddai'r adolygiad yn cael ei dderbyn ar ddiwedd y broses. Cymerodd y cytundeb a'r broses hon tan hydref 2022 i'w cwblhau rhwng yr holl bartïon allweddol.
- 1.3** Gohiriwyd yr adolygiad ymhellach yn sgil penodi Cadeirydd ac Adolygwyr annibynnol â phrofiad priodol, i fodloni'r gofynion statudol. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, gwnaeth y Cadeirydd a'r Adolygwyr roi'r gorau i'w rolau ym mis Mai 2022, gydag unigolion newydd yn cael eu penodi ym mis Hydref 2022, a chynhaliwyd y cyfarfod panel swyddogol cyntaf ar 24 Hydref 2022. Yn anffodus, ym mis Mawrth 2023 bu'n rhaid i'r Cadeirydd ymddiswyddo o'i swydd oherwydd gwrthdaro buddiannau, a phenodwyd Cadeirydd newydd ym mis Ebrill 2023. Cynhaliwyd y cyfarfod panel cyntaf gyda'r Cadeirydd newydd ar 18 Mai 2023.

Teyrnged i'r Teulu

"Roedd ein Partner/Tad yn ddyn ei deulu, cariadus a fyddai'n dweud mai ei gyflawniad mwyaf mewn bywyd oedd ei 4 plentyn. Yr oedd yn ddyn o ffydd a gadwodd Jah Rastafari yn agos at ei galon, gan fyw bywyd glân, cyfiawn a llawn.

Roedd yn ddyn tawel, swil oni bai ei fod yn ei fan cyffyrddus, gartref gyda'i deulu. Ychwanegwch at hynny, gerddoriaeth 'roots' a 'reggae', formula one, pêl-droed ac ychydig o reis a phys, ac roedd yn fodlon. Roedd yn ddyn syml nad oedd pethau materol o bwys iddo. Ei gartref oedd ei le hapus.

Roedd yn enghraifft berffaith o ddyn ei deulu - cryf, dibynadwy, presennol, ac roedd ganddo gymaint o gariad i'w roi. Roedd ei wên yn goleuo unrhyw ystafell. Er mor drasig yw'r amgylchiadau sy'n ein harwain at golli Dad, gadawodd wrth wneud yr hyn roedd yn ei wneud orau - ein caru a'n diogelu.

Ni ddylid anghofio ein bod hefyd wedi colli rhywun arall yng nghanol y drasiedi hon. Er ei fod yn bresennol o hyd, yn gorfforol, rydym hefyd wedi colli'r hyn a fu unwaith yn Fab a Brawd addfwyn, tyner, diniwed, a oedd yn dwlu ar chwaraeon.

Yn anffodus, gwnaeth ei weithredoedd annychmygol arwain at golli ein Tad, a bron â cholli ein Mam, i gael yr help yr oedd ei wir angen arno. Gwnaethom erfyn am yr help hwn am ddwy flynedd cyn hynny. Gallai fod wedi cael ei atal.

Ni fydd byth digon o eiriau i ddisgrifio'r effaith y mae'r drasiedi erchyll hon, sydd wedi newid bywydau, wedi ei chael arnom ni fel teulu. Mae yna wacter yn ein bywydau a'n calonau, mae ein teulu yn deilchion.



Gobeithiwn y bydd y cyfleoedd/argymhellion dysgu a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn ysgogi newid. Newid yn y ffordd y mae'r asiantaethau sy'n ymateb i ddioddefwyr iechyd meddwl yn gweithio, er mwyn osgoi ailadrodd y drasiedi yr ydym, yn anffodus, wedi'i dioddef. I ni fel teulu, dyma fydd yr agosaf y byddwn yn dod at gyfiawnder.”

Amlinelliad o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Adolygiad:

- 2.1** Yn dilyn lladdiad domestig a ddigwyddodd ym mis Hydref 2020, daeth yn amlwg yn gyflym y byddai sawl adolygiad annibynnol yn cael eu comisiynu mewn perthynas ag amgylchiadau'r achos. Roedd y rhain yn cynnwys Adolygiad Dynladdiad Domestig (ADD), Adolygiad Digwyddiadau Difrifol Iechyd (Mewnol) ac Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl. Cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid adolygu'r achos fel peilot gan ddefnyddio'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS).
- 2.2** Cafodd y cynnig gan Lywodraeth Cymru a manylion yr achos eu hystyried gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ym mis Ionawr 2021, ac yna gan Fwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd ym mis Chwefror 2021, a gomisiynodd ADUS ar argymhelliad y Grŵp Adolygu Achosion yn unol â'r Canllawiau¹ ar gyfer cynnal ADUS. Ar adeg dechrau'r adolygiad roedd y Canllawiau yn dal i fod ar ffurf ddrafft ac yn destun prosesau ymgynghori. Cynhaliodd yr Adolygwyr a'r Cadeirydd Annibynnol gyswllt rheolaidd â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol a fyddai'n deillio o'r cyfnod ymgynghori.

Cyd-destun cyfreithiol

- 3.1** Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael eu bodloni dan y canlynol –
 - Adolygiad Dynladdiad Domestig (ADD) – i'w gwblhau yn unol â Chanllawiau Statudol y Swyddfa Gartref 2016²
 - Adolygiad Digwyddiadau Difrifol Iechyd (Mewnol)
 - Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl

Ymchwiliadau Cyfochrog

- 4.1** Agorwyd a gohiriwyd cwest gan Grwner EF. Doedd y cwest ddim wedi digwydd adeg diwedd yr ADUS. Rhannwyd copi o'r ADUS gyda Chwner EF ar ddiwedd y broses.

¹ https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-03/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau-statudol-drafft_0.pdf

² <https://www.gov.uk/government/publications/revised-statutory-guidance-for-the-conduct-of-domestic-homicide-reviews>



- 4.2** Gwnaeth Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu gwblhau ymchwiliad mewn perthynas â chyswllt Heddlu De Cymru ag unigolion yr adolygiad. Nid oedd yr ymchwiliad wedi ei gyhoeddi adeg diwedd yr ADUS.
- 4.3** Gwnaeth Heddlu De Cymru gwblhau ymchwiliad troseddol i amgylchiadau'r achos. Adolygodd Gwasanaeth Erlyn y Goron yr ymchwiliad hwnnw a phenderfynu y dylai ddilyn ymlaen i dreial troseddol, y mae ei fanylion wedi'u cynnwys isod.

Cefndir yr Achos

- 5.1** Mae'r achos hwn yn ymwneud â James, Karen a Marcus. Roedd James a Karen wedi bod mewn perthynas ers blynyddoedd lawer. Roedd ganddyn nhw bedwar o blant, Marcus oedd yr ail ieuengaf o'u plant. Roedd Karen a Marcus yn byw gyda'i gilydd. Roedd James wedi symud allan o gartref y teulu yn 2016 ac yn byw gydag un o'u plant. Roedd y ddau blentyn arall yn byw yn eu llety eu hunain.
- 5.2** Ym mis Hydref 2020, aeth yr Heddlu i gyfeiriad cartref Karen yn dilyn galwad gan gymydog. Roedd James y tu mewn i'r eiddo. Disgrifiwyd James fel un oedd yn farwaidd ac roedd ganddo sawl clwyf trywanu i'w gorff. Cafodd James ei ddatgan yn farw yn y fan a'r lle. Cafwyd hyd i Karen gyda sawl clwyf trywanu i'w chorff ac roedd yn derbyn triniaeth cymorth cyntaf gan aelod o'r cyhoedd. Ar ôl i weithwyr iechyd proffesiynol gyrraedd, cafodd Karen driniaeth cynnal bywyd yn y fan a'r lle, a achubodd ei bywyd. Nid oedd Marcus yn y cyfeiriad ar ôl i'r Heddlu gyrraedd, ond cafodd ei ddarganfod gan yr Heddlu ychydig bellter i ffwrdd. Cafodd Marcus ei arestio gan yr Heddlu.
- 5.3** Penderfynodd post-mortem y Swyddfa Gartref mai achos marwolaeth James oedd -
- 1a - clwyfau trywanu lluosog i'r corff, yn cynnwys yr ysgyfaint, y galon a'r aorta.
- 5.4** Cafodd Karen driniaeth a llawdriniaeth am glwyf endoriadol ar barwyden y frest ôl chwith gan achosi i'r ysgyfaint ddatychwyddo (niwmothoracs) a chlwyf endoriadol i'w blaen y fraich chwith. Cafodd driniaeth hefyd i drwsio anaf diafframatig.
- 5.5** Ar 18 Hydref 2020, cafodd Marcus ei gyhuddo o lofruddio James a cheisio llofruddio Karen.
- 5.6** Ym mis Gorffennaf 2022, plediodd Marcus yn euog i ddynladdiad James a phlediodd yn euog i geisio llofruddio Karen. Derbyniodd Marcus orchymyn ysbyty/gorchymyn cyfyngu o dan Adran 41 Deddf Iechyd Meddwl 1983, ac fe'i cadwyd heb derfyn amser.

Amserlen

- 6.1** Mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o fis Awst 2018 hyd at, a chan gynnwys, mis Hydref 2020. Dewiswyd yr amserlen i nodi cyfres o ddigwyddiadau cam-drin domestig rhwng Marcus a Karen, a ddigwyddodd ym mis Awst 2018, a digwyddiadau dilynol a chysylltiadau ag asiantaethau cyn marwolaeth James.



Roedd yr amserlen yn ymestyn y cyfnod amser o 12 mis a ddefnyddir fel arfer o fewn ADUS. Gwnaed y penderfyniad i ymestyn yr amserlen gan y Panel Adolygu i ganiatáu dadansoddiad o ddigwyddiadau arwyddocaol a chyfranogiad asiantaethau o fewn y trywyddau ymholi allweddol y cytunwyd arnynt. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried digwyddiadau arwyddocaol a gynhaliwyd cyn yr amserlen y cytunwyd arni, yr ystyriwyd eu bod wedi cael effaith ar yr adolygiad.

Methodoleg

- 7.1** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel ar 24 Hydref, 2022. Cyfarfu'r panel 12 gwaith i gyd. Cynhaliwyd cyfarfodydd panel trwy Microsoft Teams a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yn ystod cyfarfodydd panel, cynhaliwyd trafodaethau cadarn, gyda'r holl asiantaethau dan sylw yn cyfrannu at y broses adolygu.
- 7.2** Roedd y fethodoleg yn cymryd i ystyriaeth y broses sydd wedi'i chynnwys yng Nghlanllawiau'r ADUS a Chanllawiau ADD y Swyddfa Gartref.
- 7.3** Gofynnwyd i bob asiantaeth ddarparu llinell amser o gysylltiadau eu hasiantaeth o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Adolygodd y Panel Adolygu'r llinell amser gyfun, ac o'u trafodaethau cytunwyd ar Drywyddau Ymholi Allweddol ar gyfer yr achos. Yna gofynnwyd i bob asiantaeth wneud gwaith pellach wrth ddadansoddi digwyddiadau o fewn eu llinell amser.
- 7.4** Gwnaeth rhai asiantaethau gyfwrdd â staff oedd yn rhan o'r achos er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut a pham y gwnaed penderfyniadau. Dosbarthwyd y deunydd ysgrifenedig a luniwyd i aelodau'r panel, a'i ddefnyddio i lywio eu trafodaethau. Yn ystod y trafodaethau hyn, nodwyd ymholiadau ychwanegol, a cheisiwyd gwybodaeth ategol.
- 7.5** Rhoddwyd gwybod i'r teulu am y fethodoleg a oedd yn cael ei chynnal a'r Trywyddau Ymholi Allweddol y cytunwyd arnynt. Mae rhagor o wybodaeth am gynnwys y teulu yn cael ei nodi yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Trywyddau Ymholi Allweddol

1. Beth oedd y pwyntiau allweddol neu'r cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth, asesu a gwneud penderfyniadau yn yr achos hwn?
2. Pa asesiadau risg a gynhaliwyd gan eich asiantaeth ar gyfer unigolion yr adolygiad hwn a beth oedd y canlyniad? A oedd asesiadau risg yn gywir ac o'r ansawdd priodol?
3. A yw'n ymddangos bod asesiadau a phenderfyniadau wedi'u gwneud mewn ffordd wybodus a phroffesiynol? A oedd y camau gweithredu neu'r cynlluniau rheoli risg yn cyd-fynd â'r asesiad a'r penderfyniadau a wnaed? D.S. Dylech ystyried y dulliau sydd gan eich asiantaeth ar waith i gynyddu asesiadau risg yn fewnol ac i brosesau amlasiantaethol fel Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (TADC) a/neu Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR).



4. Pa ystyriaeth a roddodd eich asiantaeth i unrhyw elfennau iechyd meddwl, cam-drin domestig a/neu gamddefnyddio sylweddau wrth nodi, asesu a rheoli risgiau?
5. Sut gwnaeth eich asiantaeth ganfod gallu teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach i reoli unrhyw risgiau a nodwyd?
6. A wnaeth eich asiantaeth ystyried y gallai unigolion yr adolygiad hwn fod yn oedolion mewn perygl o fewn telerau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014? A oedd unrhyw gyfleoedd i gynnal adroddiad diogelu oedolion?
7. Pa ddangosyddion o gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol a Thrais a Cham-drin gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant (APVA) a oedd gan eich asiantaeth a allai fod wedi nodi James a Karen fel dioddefwr cam-drin domestig, a beth oedd yr ymateb?
8. A oedd digon o bwyslais ar leihau effaith ymddygiad camdriniol honedig Marcus tuag at James a Karen drwy gymhwyso cyfuniad priodol o sancsiynau (arestio/cyhuddo) ac ymyriadau eraill?
9. Pryd, ac ym mha ffordd, y cafodd dymuniadau'r unigolion eu canfod a'u hystyried? A gafodd yr unigolion wybod am opsiynau/dewisiadau i wneud penderfyniadau gwybodus? A oeddent yn cael eu cyfeirio at asiantaethau eraill, a pha mor hygyrch oedd y gwasanaethau hyn i'r unigolion?
10. A oedd unrhyw faterion mewn perthynas â gallu neu adnoddau yn eich asiantaeth a effeithiodd ar ei gallu i ddarparu gwasanaethau i unigolion yr adolygiad hwn, neu ar allu eich asiantaeth i weithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill? D.S. Dylech hefyd ystyried unrhyw broblemau gallu/adnoddau ychwanegol gyda chyswllt asiantaeth yn ystod pandemig COVID-19.
11. Pa ddysgu sydd wedi dod i'r amlwg ar gyfer eich asiantaeth? A yw'r dysgu ar gyfer eich asiantaeth yn ymddangos mewn unrhyw adolygiad diogelu arall a gynhaliwyd gan eich asiantaeth? Os felly, rhwch fanylion ynghylch pryd y nodwyd y dysgu hwn a'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn.
12. A oes unrhyw enghreifftiau o arfer rhagorol neu arloesol yn deillio o'r achos hwn?

Asiantaethau a roddodd wybodaeth i'r adolygiad

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Gwasanaethau Meddygon Teulu Gofal Iechyd Sylfaenol
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Caerdydd
- Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaethau Tai, Cyngor Caerdydd
- RISE Caerdydd
- Cymru Ddiogelach
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Caerdydd
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Abertawe
- ASSIA, Pen-y-bont ar Ogwr



- Gwasanaeth Eryln y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd EF
- Elysium Healthcare
- Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA), Cymorth Tai

Adolygu aelodaeth y panel

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Caerdydd – Rheolwr Gweithredol ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Uwch Swyddog Prawf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Diogelu – Ymgynghorydd Nyrsio Diogelu
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Headroom – Nyrs Ymgynghorol
- Heddlu De Cymru - Rheolwr Diogelu Annibynnol ar gyfer Pobl Agored i Niwed
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru - Uwch Arbenigwr Diogelu
- Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Caerdydd – Rheolwr Gweithredol, Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd - Rheolwr Gweithredol
- Gwasanaethau Tai, Cyngor Caerdydd – Rheolwr Llety a Chymorth
- Gwasanaethau Tai, Cyngor Caerdydd – Rheolwr Prosiect Gwella, Gwasanaethau Rhyw Benodol
- Gwasanaethau Tai, Cyngor Caerdydd – Cydlynnydd Cam-drin Domestig
- RISE Caerdydd – Rheolwr Gwasanaeth
- Cymru Ddiogelach – Cyfarwyddwr Safonau Gwasanaeth
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru – Arweinydd Dioddefwyr Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru

Gellir dod o hyd i'r rhestr hon hefyd yn [Atodiad 1](#).

- 8.1** Cefnogwyd y Panel Adolygu yn eu rôl trwy benodi Seiciatrydd Ymgynghorol o'r tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd, sydd â phrofiad helaeth o weithio gyda throseddwr ag anhwylder meddwl a'r trefniadau amlasiantaethol oedd eu hangen. Ar hyn o bryd mae'r Seiciatrydd Ymgynghorol yn Gyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol o fewn ardal Bwrdd Iechyd. Gwnaeth ddarparu cyngor a chefnogodd ddealltwriaeth yr Adolygwyr o gymhlethdodau anhwylder meddwl, gwasanaethau iechyd meddwl a'r ddeddf iechyd meddwl. Rhoddodd gyngor hefyd ar asesiadau risg mewn gwasanaethau iechyd meddwl a threfniadau cynllunio rhyddhau ac ôl-ofal.
- 8.2** Gofynnodd y Panel Adolygu am wybodaeth mewn perthynas â diwylliant Rastaffaraidd. Digwyddodd hyn ar ffurf cyflwyniad i'r panel gan gynrychiolydd o Rastafari Movement UK. Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y



cyflwyniad, roedd gan y Panel Adolygu hefyd fynediad at ddogfennaeth lenyddol – 'Seven Ways to Good Mental Wellbeing and Rastafari'³.

Cysylltu ag asiantaethau y tu allan i gyfarfodydd panel a digwyddiadau dysgu

- 9.1 Nid oedd Meddyg Teulu Marcus yn gallu bod yn bresennol yn y digwyddiad dysgu a chytunodd i gwrdd â'r Cadeirydd a'r Adolygwyr Annibynnol cyn y digwyddiad dysgu i drafod eu cyfranogiad a'u dadansoddiad yn erbyn digwyddiadau allweddol.
- 9.2 Gofynnodd y Panel Adolygu am wybodaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron a Llysoedd EF i ddeall ymhellach eu cyfranogiad a'u penderfyniadau ar faterion troseddol a sifil.
- 9.3 Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Adolygwyr Annibynnol â Dirprwy Brif Erlynydd y Goron i drafod ei gyfranogiad a chasglu rhagor o wybodaeth. Mae hyn wedi'i nodi yn yr adroddiad lle y bo angen.

Cysylltu â Marcus

- 10.1 Roedd yr Adolygwyr Annibynnol yn awyddus i ymgysylltu â Marcus fel rhan o'r broses adolygu. Cysylltwyd â gweithwyr meddygol proffesiynol oedd yn gyfrifol am ofal Marcus ar wahanol adegau drwy gydol yr adolygiad. Hysbysodd y clinigwyr a oedd yn gyfrifol am Marcus yr adolygiad nad oeddent yn teimlo ei fod er budd gorau Marcus i fod yn rhan o'r adolygiad gan y gallai hyn achosi dirywiad yn ei gyflwr meddyliol. Cadwodd yr Adolygwyr Annibynnol gysylltiad â'r gweithwyr meddygol proffesiynol drwy gydol y broses adolygu, a gwnaethant ail-ymweld â'r mater hwn yn aml. Fodd bynnag, ar adeg cwblhau'r adolygiad, nid oedd ymgysylltiad â Marcus wedi'i gyflawni.

Digwyddiadau Dysgu

- 11.1 Cynhaliwyd dau ddigwyddiad dysgu ar wahân a ddaeth â staff rheng flaen a Rheolwyr o asiantaethau, a oedd yn ymwneud â'r achos, ynghyd. Nodwyd mynychwyr yn y digwyddiadau hyn gan aelodau'r panel ar gyfer eu hasiantaethau priodol. Gellir dod o hyd i'r asiantaethau a oedd yn bresennol yn [Atodiad 2](#).
- 11.2 Roedd y digwyddiadau dysgu yn gyfle i weithwyr proffesiynol fyfyrir ar eu hymwneud â'r teulu a nodi unrhyw systemau a dysgu sefydliadol. Arweiniwyd y digwyddiadau dysgu gan yr Adolygwyr a'r Cadeirydd Annibynnol gyda chymorth gan y Seiciatrydd Ymgynghorol.

³ https://goodthinking-strapis3.eu-west-2.amazonaws.com/Five_Ways_Wellbeing_Rastafari_v6_ed627e7426.pdf?updated_at=2022-10-26T11:21:47.251Z



- 11.3** Cyn y digwyddiad dysgu, darparwyd copi o'r llinell amser gyfun i'r gweithwyr proffesiynol, y Trywyddau Ymholi Allweddol a gwybodaeth am amgylchiadau'r achos a'r broses adolygu a oedd yn cael ei chynnal. Cafodd gweithwyr proffesiynol, a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau dysgu, eu briffio gan eu haelod panel perthnasol yn unol â chanllawiau'r ADUS.
- 11.4** Er mwyn hwyluso'r digwyddiad dysgu, gwahanodd yr Adolygwyr y llinell amser yn 7 cyfnod amser allweddol. Nododd pob cyfnod amser ddigwyddiadau allweddol, i'w hystyried a'u trafod gan ymarferwyr yn ystod y digwyddiad dysgu. Roedd y digwyddiadau dysgu yn darparu gwybodaeth ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.
- 11.5** Hoffai'r Adolygwyr ddiolch i'r holl ymarferwyr a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau dysgu ac am eu cyfraniad at yr hyn a ddysgwyd yn y broses adolygu.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

Mynd i'r afael â'r naw nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁴ i'r Adolygiad. Cynnwys archwilio rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau, yn ogystal ag ystyriaeth ehangach o ran a effeithiwyd ar ddarparu gwasanaethau, gan roi ystyriaeth i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.⁵

Cyfeirio at:

- 12.1** Cytunodd y Panel Adolygu i ddefnyddio'r fformat a ddefnyddir ar hyn o bryd yn unol â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig.

Oedran

- 12.2** Roedd James yn 54 oed ar adeg ei farwolaeth. Roedd Karen yn 50 oed pan gafodd anafiadau difrifol. Roedd Marcus yn 21 oed adeg y digwyddiad.

Anabledd

- 12.3** Mae Adran 6 y Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio 'anabledd' fel:
[1] Mae gan berson [P] anabledd -

⁴Deddf Cydraddoldeb 2010. [Deddf Cydraddoldeb 2010 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

⁵ [Dyletswydd economaidd-gymdeithasol: trosolwg | Llyw.Cymru](http://Dyletswydd_economaidd-gymdeithasol: trosolwg | Llyw.Cymru)



- [a] Os oes gan y P amhariad corfforol neu feddyliol; ac
[b] Os yw'r amhariad yn cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu'r P i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol⁶

12.4 Nid yw'r adolygiad wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod James a Karen wedi bodloni'r diffiniad o anabledd.

12.5 Rhwng mis Ionawr 2020 a mis Mehefin 2020, cafodd Marcus ei gadw o dan Adran 2 ac, o ganlyniad, Adran 3 Deddf Iechyd Meddwl 1986. Cofnodwyd bod Marcus yn dioddef o seicosis yn ystod y cyfnod hwn, ac roedd ymyrraeth a thriniaeth mewn ymateb i'r seicosis. Roedd Marcus wedi ei gadw ar yr adeg hon.

Ailbennu Rhywedd

12.6 Ddim yn berthnasol i'r adolygiad hwn.

Priodas

12.7 Roedd James a Karen wedi bod mewn perthynas hirdymor. Nid oeddent yn briod.

Beichiogrwydd a mamolaeth

12.8 Ddim yn berthnasol i'r adolygiad hwn.

Hil

12.9 Dywedodd y teulu fod James o dras Ddu Garibäidd. Roedd Marcus o dras Wyn Ddu Garibäidd. Roedd Karen yn Wyn Prydeinig.

Crefydd neu gred

12.10 Dilynodd James ffydd Rastaffaraidd. Nid oedd Marcus yn uniaethu ag un grefydd benodol. Nid oedd Karen yn uniaethu ag un grefydd ond roedd yn dilyn y cysyniad Rastaffaraidd o "fyw bywyd cytbwys". Caiff hyn ei gynnwys yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Rhywedd

12.11 Dioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig a dynladdiad domestig –

Roedd marwolaeth James o ganlyniad i gam-drin domestig.

12.12 Yn ôl adroddiad dynladdiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021/22⁷, roedd 134 o ddynladdiadau domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.

⁶ Mae dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon wedi'u heithrio o'r diffiniad o anabledd.

⁷

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/march2022#the-relationship-between-victims-and-suspects>



- 12.13** O'r 134 o ddynladdiadau domestig: lladdwyd 78 o ddiodefwyr gan bartner neu gynbartner, lladdwyd 40 gan riant, mab neu ferch, a lladdwyd 16 gan aelod arall o'r teulu.
- 12.14** Roedd dynion yn llawer llai tebygol o ddiodef dynladdiad domestig, gyda 11% (50) o ddynladdiadau gwrywaidd yn gysylltiedig â throseddau domestig yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022.
- 12.15** Yn ôl trosolwg o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Tachwedd 2023⁸ mae 26.5% o ddiodefwyr cam-drin domestig yn ddynion. Mae hynny'n cyfateb i 751,000 o ddynion sydd wedi diodef cam-drin domestig yn 2022/23.
- 12.16** Dioddefwyr benywaidd cam-drin domestig –
- Cydnabu'r Panel Adolygu fod Cam-drin Domestig yn drosedd ryweddol, gyda menywod yn fwy tebygol o fod yn ddiodefwyr na dynion. Roedd Karen wedi diodef cam-drin domestig.
- 12.17** Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y data canlynol: - 'Trosolwg o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr'⁹ –
- Amcangyfrifodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod 5.0% o oedolion (6.9% o fenywod a 3.0% o ddynion) 16 oed ac yn hŷn wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022; mae hyn yn cyfateb i tua 2.4 miliwn o oedolion (1.7 miliwn o fenywod a 699,000 o ddynion).
 - Roedd tua 1 o bob 5 oedolyn 16 oed a throsodd (10.4 miliwn) wedi profi cam-drin domestig ers yn 16 oed.
 - Ni fu unrhyw newid sylweddol yn nifer yr achosion o gam-drin domestig a brofwyd gan oedolion rhwng 16 a 59 oed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020; blwyddyn na effeithiwyd arni i raddau helaeth gan y pandemig coronafeirws (COVID-19), a'r tro diwethaf y casglwyd y data.
 - Cynyddodd nifer y troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr 7.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i 910,980 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022; mae hyn yn dilyn cynnydd a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac mae'n bosib ei fod yn adlewyrchu mwy o adroddiadau gan ddiodefwyr.
 - Cynyddodd y gyfradd cyhuddo sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) yng Nghymru a Lloegr am y tro cyntaf mewn pedair blynedd i 72.7% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis

8

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwalesoverview/november2023#:~:text=The%20police%20recorded%20889%2C918%20domestic,the%20year%20ending%20March%202022>

9

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwalesoverview/november2022>



Mawrth 2022 ond mae'n parhau i fod yn is na'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018 (75.9%).

- Cyflwynodd y Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig 50,791 o sesiynau cymorth drwy alwad ffôn neu sgwrs fyw yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, nifer debyg i'r flwyddyn flaenorol.

Cyfeiriadedd Rhywiol

12.18 Ni nodwyd manylion cyfeiriadedd rhywiol unigolion yr adolygiad.

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Anfantais economaidd-gymdeithasol

12.19 Mae ardal Llanelwyr wedi'i rhannu rhwng ardaloedd ward etholiadol Pontprennau a Phentref Llanelwyr a Trowbridge. Digwyddodd y digwyddiad hwn yn Trowbridge, a dyna a lle'r oedd y teulu'n byw, lle mae poblogaeth o 17,200 o bobl. Mae gwybodaeth gan Gyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod gan y ward hon 60.7% o aelwydydd ag un dimensiwn neu fwy o amddifadedd (Addysg, Cyflogaeth, Iechyd a Thai). Mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn wyn (82.5%) a 5.1% yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd. Adroddir bod 22.4% yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb. O ran cyfraddau cyflogaeth, rhestrir 33.9% fel rhai 'nad oeddent erioed wedi gweithio,' a 52.6% fel rhai 'nad oeddent wedi gweithio yn ystod y 12 mis diwethaf'.

12.20 Mae nifer o ysgolion cynradd yn y lleoliad hwn, gyda dwy ysgol uwchradd o fewn y dalgyll, Ysgol Uwchradd y Dwyrain ac Ysgol Gatholig Illtud Sant. Mae nifer o gyfleusterau yn cynnal gwasanaethau gwirfoddol i gefnogi'r gymuned gan gynnwys parseli bwyd.

Cynnwys y teulu a'r prif unigolion:

13.1 Yn unol â chanllawiau'r ADUS, a chydag ymwybyddiaeth o ganllawiau'r ADD, bu cyswllt ag aelodau'r teulu drwy gydol y broses adolygu.

13.2 Ym mis Ionawr 2023, cynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol wyneb yn wyneb â'r teulu, gyda Chadeirydd y Panel Adolygu a benodwyd yn wreiddiol, ac un o'r Adolygwyr Annibynnol. Roedd y teulu'n cynnwys Karen, Mary a Gemma, partner, a merched James. Cefnogwyd y teulu gan Swyddog Cyswllt â Theuluoedd yr Heddlu yn ystod y cyfarfod. Nid oedd y Gweithiwr Cymorth i Ddiodefwyr Dynladdiadau yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod, esboniwyd proses yr ADUS i'r teulu gan gynnwys diben y broses adolygu, beth fyddai'n ei olygu, pwy fyddai'n cymryd rhan a sut y byddai'n datblygu. Cytunodd y teulu i ymgysylltu â'r broses adolygu a chadarnhaodd mai eu dymuniad oedd cysylltu â'r Adolygydd a'r Cadeirydd Annibynnol yn uniongyrchol.




- 13.3** Gwnaed cyswilt dilynol â'r teulu dros y broses adolygu ac ar adegau allweddol, trwy e-bost, llythyr a thros y ffôn.
- 13.4** Ym mis Mai 2023, hysbyswyd y teulu am newid o ran Cadeirydd. Ym mis Mehefin 2023, cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb â'r teulu, gyda'r Cadeirydd Annibynnol newydd a'r Adolygwyr Annibynnol. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, rhoddodd y teulu wybodaeth amdanynt eu hunain, sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Rhannodd y teulu yr hyn oedd yn bwysig iddyn nhw fel teulu i'w ystyried fel rhan o'r broses adolygu. Ategwyd hefyd i'r teulu y gallent gael eu cefnogi gan eiriolwr drwy gydol y broses, ond gwrthododd.
- 13.5** Rhoddodd y teulu restr o gwestiynau i'r Cadeirydd ar gyfer aelodau'r panel, ynghyd â ffotograffau o'u teulu. Rhannwyd y cwestiynau a'r ffotograffau gydag aelodau'r panel ac ymarferwyr yn ystod y Digwyddiadau Dysgu.
- 13.6** Ym mis Medi 2023, roedd y teulu yn bresennol mewn cyfarfod panel. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn wyneb yn wyneb a chynigiwyd cyfle i'r teulu siarad ag aelodau'r panel yn uniongyrchol.
- 13.7** Ar 1 Chwefror 2024, roedd y teulu yn bresennol mewn cyfarfod â'r Cadeirydd a'r Adolygwyr a chawsant fynediad at gopi drafft o'r adroddiad. Rhoddodd y teulu wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Adolygodd y teulu fersiwn wedi'i diweddarau o'r adroddiad ar 22 Chwefror 2024.
- 13.8** Trwy gydol y broses adolygu, gan gynnwys trafodaethau â'r Uwch Swyddog Ymchwilio, sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad troseddol, ni nodwyd perthnasau na ffrindiau ychwanegol a allai fod wedi cefnogi'r adolygiad.
- 13.9** Deilliodd yr adolygiad o ddigwyddiad yn ymwneud ag aelodau penodol o'r teulu, ac mae'r adolygiad wedi canolbwyntio ar yr aelodau hynny o'r teulu a'u hymgysylltiad ag asiantaethau. Cydnabu'r Panel Adolygu y gallai ymgysylltu â theulu a ffrindiau ehangach nodi gwybodaeth ychwanegol i lywio'r broses adolygu; fodd bynnag, ar ôl trafod y broses adolygu â'r teulu, daeth y Panel Adolygu i'r casgliad y byddai wedi bod yn ansensitif i'r teulu i ehangu cwrpas y cyswilt y tu allan i aelodau teulu agos heb reswm da.



Hanes y Teulu a/neu Wybodaeth Gyd-destunol:

Genogram



Cefndir Teuluol

- 14.1** Roedd Karen yn 18 oed pan gyfarfu â James wrth aros gyda theulu yn Llundain. Yn fuan ar ôl i'r berthynas ddechrau, daeth Karen yn feichiog gyda'u plentyn hynaf, a symudon nhw i Gaerdydd, gan aros gyda theulu Karen i ddechrau cyn symud i'w cartref teuluol eu hunain.
- 14.2** Disgrifiodd y teulu, er nad oedd James yn arbennig o hoff o fyw yng Nghymru, ei fod yn ddyn balch iawn ac roedd yn benderfynol o gefnogi Karen a'u pedwar plentyn, Daniel, Mary, Marcus a Gemma. Roedd y teulu'n glir iawn mai'r peth pwysicaf i James oedd ei blant. Dywedodd y teulu, pe bai James yn dal yn fyw, y byddai'n dweud pa mor falch yr oedd o ohonyn nhw.
- 14.3** Roedd James yn Rastaffariad ysbrydol. Roedd mam James yn dod o Guyana a'i dad o Jamaica. Roedd gan James chwaer.
- 14.4** Dywedodd y teulu fod James wedi defnyddio canabis am resymau ysbrydol, i'w gadw'n agos at Jah Rastafari. Roedd Marcus yn ddefnyddiwr canabis ac mae hyn wedi'i nodi yn ddiweddarach yn yr adroddiad.
- 14.5** Roedd James, Karen a'r plant i gyd yn llysiuwyr. Roedd James yn llym o ran peidio â bwyta dim byd byw, neu a oedd wedi bod yn byw, oherwydd nad oedd hyn yn cyd-fynd â'i ffordd lân o fyw. Ni fyddai James yn torri ei wallt.
- 14.6** Roedd James yn canolbwyntio'n fawr ar ei deulu. Aeth James allan i weithio wrth i Karen aros gartref i fagu'r plant. Gweithiodd James i wneuthurwr ceir a daeth â'i gyflogaeth i ben oherwydd afiechyd. Roedd gan James foesau da; roedd yn barchus ac nid oedd yn defnyddio iaith anwedus. Dywedodd y teulu nad oedd



James yn gallu deall sut y gallai Karen oddef Marcus oherwydd y ffordd yr oedd yn siarad. Nid oedd James yn gwybod sut i reoli ymddygiad Marcus oherwydd yr iechyd meddwl, na rheoli'r risgiau a gyflwynodd wrth i'r teulu ddweud bod James yn dad ac nid yn Weithiwr Proffesiynol iechyd meddwl.

- 14.7** Tua mis Awst 2016 gadawodd James y cartref teuluol. Dywedodd y teulu fod James yn byw yn lleol ac yn parhau i gefnogi Karen a'r plant. Ymwelodd James â Karen bron pob dydd a phryd bynnag y byddai angen cefnogaeth neu gymorth ar unrhyw un o'r plant, fe'i darparodd. Ar yr adeg hon, roedd Daniel a Mary eisoes wedi gadael cartref a phenderfynodd Gemma fyw gyda'i thad. Gadawodd hyn Karen a Marcus yn byw gyda'i gilydd yn yr un tŷ.

Marcus

- 15.1** Disgrifiwyd Marcus fel myfyriwr da yn yr ysgol. Roedd Marcus yn athletaidd iawn, yn mwynhau pêl-droed, crefft ymladd a phêl-fasged. Roedd gan Marcus ddiddordeb mewn astudiaethau cyfryngau a busnes a ffotograffiaeth.
- 15.2** Tra yn y coleg, roedd gan Marcus grŵp cyfeillgarwch da, ond dywedodd y teulu fod Marcus wedi cymryd y llwybr anghywir, fel llawer o unigolion, a daeth i gysylltiad ag unigolion oedd yn ymwneud â'r sîn gyffuriau. Cyn hyn, roedd y teulu'n disgrifio Marcus fel 'bachgen mam'. Tua'r adeg hon, dywedodd y teulu fod Marcus wedi dweud ei fod yn mynd i Fryste a'i fod wedi dechrau ymddiddori mewn cerddoriaeth rap. Dywedodd y teulu eu bod yn mwynhau cerddoriaeth debyg i reggae a rhythm a blues yn fwy.
- 15.3** Yn 2017, pan oedd Marcus yn 18 oed, disgrifiodd y teulu sut yr oedd wedi bod yn rhan o ddigwyddiad a arweiniodd at gael ei erlid gan unigolion arfog a cheisiodd ddringo wal ar y pryd. Cafodd Marcus ei drywanu yn ei droed ac, o ganlyniad i'w anafiadau, ni allai barhau i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dywedodd y teulu fod iechyd meddwl Marcus wedi dirywio yn dilyn y digwyddiad hwn. Dywedodd y teulu, ar ôl myfyrio, eu bod yn credu y gallai Marcus fod wedi dioddef o Anhwyllder Straen Wedi Trawma yn dilyn y digwyddiad. Trwy gydol cyfnod yr adolygiad, cofnodwyd nad oedd Marcus yn cydnabod bod ganddo anghenion iechyd meddwl, ac nad oedd yn ymgysylltu ag asiantaethau a oedd yn gweithio gydag ef ac yn ceisio ei gefnogi gyda'i iechyd meddwl.
- 15.4** Ym mis Gorffennaf 2018, adroddwyd bod Marcus ar goll. Roedd Marcus yn byw mewn llety dros dro ar gyfer pobl ifanc ar y pryd. Cafodd Marcus ei ddarganfod gan ei deulu yn Brixton, Llundain ar ôl iddyn nhw weld nifer o negeseuon ar wefannau cymdeithasol. Aeth y teulu i Lundain; fodd bynnag, gwrthododd Marcus ddychwelyd i Gymru i ddechrau, a daethant adref hebdo. Cafodd Marcus ei weld gan yr Heddlu ac elusen – RedThread¹⁰ ac felly ni chafodd ei gofnodi fel person coll mwyach. Y diwrnod canlynol, aeth Marcus i'r ysbyty, yn Llundain, gyda phoenau yn ei abdomen. Roedd y teulu'n poeni am Marcus a'i wendidau, a dychwelodd i Gymru gyda Karen a James.

Disgwyliadau'r Teulu



¹⁰ <https://www.redthread.org.uk/>

Mae Redthread yn elusen gydweithredol sy'n gwreiddio gweithwyr ieuencid mewn lleoliadau iechyd.



- 16.1** Yn ystod cyfarfod cychwynnol gyda'r teulu, gofynnwyd iddynt beth roeddent yn disgwyl ei weld o'r adolygiad hwn. Cytunodd y teulu nad oedd yr adolygiad yn broses feius ond yr oeddent am wybod -
- Beth oedd y rhwystrau ac a wnaeth asiantaethau atgyfeiriadau perthnasol ac os na, pam?
 - Dywedodd y teulu na ddylai'r Heddlu fod yn brif asiantaeth ar gyfer ymateb i alwadau iechyd meddwl a'u bod am wybod pa asiantaethau allai ymateb a sut y byddai hynny'n digwydd?
 - Y trothwy ar gyfer unigolion pan fyddant yn methu ag ymgysylltu ag asiantaethau a bod ganddynt y gallu i wneud hynny, ond mae risg amlwg yn bresennol. Pryd y gall asiantaethau ymyrryd i fynd i'r afael â'r risg honno?
 - Y newidiadau i'w rhoi ar waith i atal hyn rhag digwydd i deulu arall.
- 16.2** Cyn iddynt fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel, gofynnwyd i'r teulu ddarparu unrhyw gwestiynau penodol yr oeddent am eu gofyn. Darparwyd y rhain i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod i helpu i hwyluso ymgysylltiad teuluol yng nghyfarfod y panel.
- 16.3** Mae crynodeb o'r cwestiynau wedi eu cynnwys isod –
- Gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau Marcus o'r ysbyty, i gynnwys dilyniant yn ymwneud ag iechyd meddwl Marcus.
 - Darpariaeth llety ar ôl rhyddhau Marcus.
 - Dynodi cydlynnydd gofal.
 - Ymateb yr Heddlu i ddigwyddiadau iechyd meddwl a pha hyfforddiant mae'r Heddlu wedi'i dderbyn mewn iechyd meddwl.
 - Cyfathrebu ac atgyfeiriadau gyda gwasanaethau iechyd meddwl.
 - Prosesau CAAR.
 - Ymateb i iechyd meddwl Marcus ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty, gan gynnwys cyfarfodydd wedi'u cynllunio.
- 16.4** Yn olaf, ni chyfeiriodd y teulu erioed at y geiriau 'llofruddiaeth' na 'lladd' wrth sôn am James. Doedd y teulu ddim yn cytuno gyda'r defnydd o'r gair 'cyflawnwr' am Marcus. Roedd y teulu'n glir iawn yn ystod cyswllt ar gyfer yr adolygiad, eu bod nid yn unig wedi colli partner a Thad, ond eu bod wedi colli mab a brawd.



Linell Amser yr Asiantaeth:

- 17.1** Cynhyrchodd y llinell amser gyfun gofnod helaeth o gysylltiadau asiantaethau, gyda thros 500 o gofnodion. Gwahanodd y Panel Adolygu y llinell amser gyfun yn 7 cyfnod amser allweddol. Cynhaliwyd y dull hwn i ganiatáu i'r Panel Adolygu ac ymarferwyr, a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau dysgu, ganolbwyntio ar ddigwyddiadau penodol o fewn pob cyfnod amser yn erbyn y Trywyddau Ymholi Allweddol y cytunwyd arnynt.
- 17.2** Roedd y Panel Adolygu am dynnu sylw at y ffaith mai cofnodion ffeithiol yw'r digwyddiadau isod, a bod dadansoddiad o ddigwyddiadau penodol wedi'u nodi yn yr Adran Ymarfer a Dysgu Sefydliadol.
- 17.3** Cydnabu'r Panel Adolygu mai prin oedd y cyfeiriadau at James, a llais James, yng nghofnodion yr asiantaeth, ac felly roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn yr adran isod yn ymwneud â Karen a Marcus, gan mai dyma'r wybodaeth ffeithiol a ddarparwyd i'r adolygiad.
- 17.4** Cafodd y Panel Adolygu sicrwydd yn ystod y ddau ddigwyddiad dysgu bod James wedi bod yn bresennol yn ystod nifer sylweddol o gyfarfodydd a chyswllt rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a'r teulu; fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gofnodi o fewn cofnodion asiantaethau ac mae'n bwynt dysgu ar gyfer yr adolygiad.

Awst 2018 – Rhagfyr 2018

- 17.5** Ddechrau mis Awst, ymatebodd yr Heddlu i dri digwyddiad yn ymwneud â Karen a Marcus. Digwyddodd yr holl ddigwyddiadau yng nghyfeiriad cartref Karen. Yn y ddau ddigwyddiad cyntaf, adroddodd Karen ei bod wedi bod yn cael 'problemau' gyda Marcus yr oedd hi wedi caniatáu iddo ddychwelyd i fyw gyda hi yn ddiweddar. Cafodd Marcus ei gynghori gan yr Heddlu i adael y tŷ.
- 17.6** Yn ystod y 3^{ydd} digwyddiad, achoswyd difrod i dŷ Karen. Gwnaed yr alwad i'r Heddlu y tro hwn gan James, yn dilyn galwad a gafodd gan Karen. Cafodd Marcus ei arestio a'i gyhuddo yn ddiweddarach o ddifrod troseddol. Yn ystod cyswllt â'r Heddlu, siaradodd Karen am ei phryderon am iechyd meddwl Marcus. Adolygwyd yr achos yn ddiweddarach gan gyfreithiwr o Wasanaeth Eryln y Goron, gwrthododd Karen gefnogi erlyniad. Gollyngwyd yr achos, gan y penderfynwyd na fyddai bwrw ymlaen er budd y cyhoedd.
- 17.7** Ar 15 Awst, cysylltodd Karen â Meddyg Teulu a mynegodd bryderon am iechyd meddwl Marcus. Gwrthododd Marcus fynd i'r feddygfa i gwrdd â'r Meddyg Teulu ond cytunodd i'r Meddyg Teulu fynd i gartref y teulu gan ei fod yn profi poen yn ei droed. Aeth y Nyrs Iechyd Meddwl Cymunedol, a oedd yn gweithio yn y Practis Meddyg Teulu, gyda'r Meddyg Teulu ar yr ymweliad â Marcus. Hwn oedd y cyntaf o ddau achlysur, yn ystod cyfnod yr adolygiad, pan welwyd Marcus gan Feddyg Teulu.
- 17.8** Yn ystod yr ymweliad, ymddangosodd Marcus ei fod yn poeni am ei bigwrn, ond bu'n sgwrsio ryw ychydig â'r Nyrs Iechyd Meddwl Cymunedol am ei iechyd



meddwl. Gwadodd Marcus unrhyw bryderon iechyd meddwl, a dywedodd fod ei hwyliau yn sefydlog. Adroddodd y Nyrs Iechyd Meddwl Cymunedol yn ei nodiadau achos fod Marcus yn ymddangos yn bryderus ac, o bosib, yn paranoid ond ei fod yn gallu rhesymoli hyn. Cynigiodd y Nyrs Iechyd Meddwl Cymunedol apwyntiad i Marcus gyfarfod â hi a chytunodd ar hyn. Anfonwyd llythyr yn cynnig apwyntiad ar gyfer 22 Awst, ac nid oedd Marcus yn bresennol. Cynghorwyd Marcus a Karen pe bai angen apwyntiad ar Marcus yn gynt i gysylltu â'r Meddyg Teulu.

- 17.9** Ym mis Hydref, cafodd Marcus ei arestio am ddifrod troseddol. Pan oedd yn y ddalfa, gwelwyd Marcus gan Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol a Nyrs Iechyd Meddwl. Yn ystod yr asesiad, dywedodd Marcus ei fod yn defnyddio cannabis yn ddyddiol. Daeth yr asesiad i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o anghenion iechyd meddwl aciwt. Cyfeiriwyd Marcus at sawl asiantaeth gymorth ac elusen. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r difrod troseddol.

Ionawr 2019 – Ebrill 2019

- 17.10** Ym mis Mawrth, cysylltodd Marcus â'r Heddlu a dywedodd ei fod wedi dioddef ymosodiad gan Karen. Cafodd Karen ei arestio. Gwrthododd Marcus gefnogi erlyniad a chafodd Karen ei rhyddhau o'r ddalfa. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Ni chafodd yr achos hwn ei gyfeirio at Wasanaeth Erynn y Goron ar gyfer gwneud penderfyniad.

Mai 2019 – Gorffennaf 2019

- 17.11** Ar ddiwedd mis Mai, ymosododd Marcus ar Karen. Cafodd Marcus ei arestio a'i gyhuddo yn ddiweddarach o ymosod. Cafodd Marcus ei gadw yn y ddalfa ac fe ymddangosodd yn y llys y diwrnod canlynol. Yn y llys, plediodd Marcus yn euog i ymosod ar Karen ac fe gafodd ei ryddhau o'r ddalfa. Derbyniodd Marcus ryddhad amodol am 12 mis a gorchmynnwyd iddo dalu iawndal o £20.
- 17.12** Ar ddiwrnod ei ryddhau o'r ddalfa (3 Mehefin 2019) difrododd Marcus gar James. Cafodd Marcus ei arestio a'i gyhuddo o ddifrod troseddol. Cafodd Marcus ei gadw yn y ddalfa i ymddangos yn y llys nesaf oedd ar gael. Yn y llys, plediodd Marcus yn euog i'r difrod troseddol. Roedd James wedi dweud wrth yr Heddlu nad oedd yn cefnogi erlyniad, a bod angen help ar Marcus gyda'i iechyd meddwl.
- 17.13** Cyflwynodd y Gwasanaeth Prawf adroddiad llafar i'r llys a oedd yn nodi bod Marcus wedi cael ei asesu fel risg uchel o niwed difrifol tuag at Karen a James. Nododd asesiad iechyd meddwl a gyflwynwyd i'r llys y risg barhaus o drais yn y dyfodol tuag at Karen a James. Siaradodd Karen a James â gweithiwr cyswllt iechyd meddwl y llys, a mynegwyd pryderon am iechyd meddwl Marcus.
- 17.14** Cafwyd Marcus yn euog o ddifrod troseddol a'i wneud yn destun Gorchymyn Cymunedol 12 mis. Ar adeg rhyddhau Marcus o'r llys, roedd Marcus yn ddigartref. Mewn ymateb i hyn, cysylltodd y Gweithiwr Prawf â thîm allgymorth Tai ac Adnewyddu Cymdogaethau ac fe gynigiwyd lle iddo. Gwnaethpwyd y Tîm Allgymorth yn ymwybodol o nodweddion Marcus sy'n ei wneud yn agored i niwed



a gwnaed atgyfeiriad at y CAAR gan y Gweithiwr Prawf. Doedd gan yr Heddlu ddim cofnod o dderbyn yr atgyfeiriad at y CAAR.

Awst 2019 – Rhagfyr 2019

- 17.15** Ar ddechrau mis Awst, ymosododd Marcus ar Karen. Cafodd Marcus ei arestio a'i gyhuddo o ymosod. Cafodd Marcus ei gadw yn y ddalfa i ymddangos yn y llys. Plediodd Marcus yn euog i ymosod ar Karen. Dedfrydwyd Marcus i 10 wythnos o garchar a goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu. Rhoddwyd gorchymyn atal ar waith i amddiffyn Karen rhag ymddygiad pellach a oedd yn gyfystyr ag aflonyddu neu a fyddai'n peri ofn trais gan Marcus ac roedd yn cynnwys y telerau canlynol:
- Cafodd Marcus ei wahardd rhag mynd i'r stryd lle'r oedd Karen yn byw.
 - Roedd y gorchymyn yn parhau i fod ar waith tan 1 Awst 2020.
- 17.16** Ar 22 Awst, aeth Swyddog Prawf Marcus ar drywydd yr atgyfeiriad i'r CAAR yr oeddent wedi'i wneud ym mis Mehefin. Nid oedd gan yr Heddlu unrhyw gofnod o'r cyswllt hwn.
- 17.17** Ar 4 Medi, trafodwyd yr achos mewn cyfarfod trafod dyddiol cam-drin domestig amlasiantaethol. Atgyfeiriwyd yr achos ar lafar, ac arweiniodd at nifer o gamau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith. Y diwrnod canlynol, trafodwyd yr achos mewn CAAR frys a chodwyd camau gweithredu ychwanegol.
- 17.18** Ym mis Hydref, cafodd Marcus ei ryddhau o'r carchar. Roedd Marcus bellach yn destun goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu; fodd bynnag, methodd Marcus â chydymffurfio ag amodau ei drwydded a chyhoeddodd y llys warant ar gyfer arestio Marcus. Cafodd Marcus ei arestio ar 8 Tachwedd ar ôl cael ei ganfod yng nghyfeiriad Karen. Dedfrydwyd Marcus i gyfnod o garchar a chafodd ei ryddhau ar 18 Tachwedd.
- 17.19** Ddiwedd mis Tachwedd, cyflwynodd Karen gais i'r llys yn gofyn i'r Gorchymyn Atal, a roddwyd ym mis Awst 2019, gael ei ollwng. Hysbysodd y llys yr adolygiad bod hysbysiad o'r cais hwn wedi'i anfon drwy e-bost at –
- Wasanaeth Erlyn y Goron
 - Cymru Ddiogelach¹¹;
 - Tîm Ymgynghori Annibynnol ar Drais Domestig ym Mhen-y-bont ar Ogwr
 - Uned Gofal Tystion, Heddlu De Cymru
 - Swyddog yr Heddlu a oedd yn gyfrifol am yr achos (a thrwy lythyr)
 - Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd
- 17.20** Ym mis Rhagfyr, gwnaeth y llys ollwng y Gorchymyn Atal. Hysbysodd y llys yr un asiantaethau/unigolion am y gollyngiad.

¹¹ <https://www.saferwales.com/>



COVID-19

- 17.21** Dylid nodi bod digwyddiadau a gynhwysir o fewn llinell amser yr adolygiad hwn wedi digwydd yng nghyd-destun pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig. Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyfyngiadau mewn perthynas â theithio nad oedd yn hanfodol, mewn ymateb i'r pandemig. Cafodd negeseuon aros gartref eu hyrwyddo. Cyflwynwyd cadw pellter cymdeithasol hefyd.
- 17.22** Roedd newidiadau sylweddol i'r ffordd y cafodd gwasanaethau eu darparu ar yr adeg hon.

Ionawr 2020 - 16 Ebrill 2020

- 17.23** Ar 2 Ionawr, cysylltodd Karen ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a dywedodd fod Marcus yn "cael gwaeledd nerfol". Cyfeiriodd y criw ambiwlans Marcus at ei Feddyg Teulu, a chafodd Marcus ei weld gan Feddyg Teulu yng nghyfeiriad cartref Karen. Oherwydd cyflwr Marcus, gofynnodd y Meddyg Teulu am asesiad deddf iechyd meddwl, a gynhaliwyd ar 3 Ionawr. Daeth canlyniad yr asesiad i'r casgliad bod digon o dystiolaeth i awgrymu bod dirywiad yng nghyflwr meddyliol Marcus a allai beri risg iddi'i hun neu i eraill, ac fe'i cadwyd o dan Adran 2 Deddf Iechyd Meddwl 1983. Cafodd Marcus ei gludo i'r ysbyty am gyfnod o asesu o'i anghenion iechyd meddwl.
- 17.24** Ar 29 Ionawr, yn dilyn asesiad pellach, cafodd Marcus ei gadw dan Adran 3 Deddf Iechyd Meddwl 1983 i ganiatáu triniaeth bellach o'i iechyd meddwl.
- 17.25** Roedd Karen a James yn ymwelwyr cyson â Marcus ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau â staff oedd yn trin iechyd meddwl Marcus.
- 17.26** Ddechrau mis Mawrth, adroddwyd bod dirywiad yn iechyd meddwl Marcus gyda mwy o ymddygiad seicotig, tystiolaeth o feddyliau yn ymwneud â hunan-niweidio ac ymddygiad brawychus a bygythiol tuag at gleifion a staff eraill. Cytunwyd y byddai Marcus yn cael ei drosglwyddo i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig (UGDS).
- 17.27** Ar 12 Mawrth, ag yntau yn yr UGDS, ymosododd Marcus ar glaf arall, ac er mwyn cefnogi'r gwaith o ddiogelu'r claf arall trosglwyddwyd Marcus i ward arall. Fodd bynnag, roedd ymddygiad Marcus yn parhau i fod yn fygythiol tuag at eraill, a chytunwyd y byddai'n cael ei drosglwyddo'n ôl i'r UGDS dros dro, tra ceisiwyd gwely mewn UGDS y tu allan i'r ardal.
- 17.28** Ar 16 Mawrth, cafodd Marcus ei drosglwyddo i ysbyty iechyd meddwl arbenigol a ariannwyd, yn Lloegr. Arhosodd Marcus yno tan 16 Ebrill pan ddychwelodd i'w ysbyty iechyd meddwl lleol. Yn unol â chanllawiau COVID 19 ar y pryd, cymerwyd swab COVID-19 pan ddychwelodd o'r ysbyty yn Lloegr. Ar 18 Ebrill, cafodd Marcus ei drosglwyddo i ward COVID-19 iechyd meddwl pwrpasol. Pan gafodd ei dderbyn i'r ward, roedd Marcus yn gwrtais, yn ddymunol, ac yn ymgysylltu mwy â staff. Ar gyfer rhannau cychwynol ei fynediad i'r ward hon, roedd cofnodion



electronig yn nodi nad oedd tystiolaeth o ofid nac ymateb i ysgogiadau nas gwelwyd.

- 17.29** Ar 25 Ebrill, dechreuodd Marcus wrthod cymryd ei feddyginiaeth a nodwyd newid yn ei gyflwr meddyliol. Cysylltwyd â'r ymgynghorydd ar alwad i ystyried defnyddio Adran 62 Deddf Iechyd Meddwl 1983, sy'n caniatáu rhoi triniaeth heb gydsyniad nac ail farn. Cwblhawyd y gwaith papur priodol ac roedd Adran 62 yn berthnasol. Gan nad oedd Adran 62 yn cynnwys meddyginiaeth gwrthseicotig mewngyhyrol, cafodd hyn ei adolygu gan yr ymgynghorydd ar alwad ar 27 Ebrill, a gwnaed diwygiadau i ganiatáu hyn.
- 17.30** Ar 2 Ebrill, cychwynnodd Marcus apêl yn erbyn y penderfyniad i'w gadw o dan Adran 3 Deddf Iechyd Meddwl 1983.

17 Ebrill 2020 – Gorffennaf 2020

- 17.31** Ar 1 Mai, cafodd Marcus ei drosglwyddo o'r ward COVID-19 bwrpasol i'r ward driniaeth wrth i'w gyfnod ynysu ddod i ben.
- 17.32** Ar 5 Mai, gwelwyd Marcus yn ystod rownd y ward, a nodwyd nad oedd arwyddion gweithredol o seicosis, roedd ei ymgysylltiad wedi gwella, ac roedd yn gwrtais. Roedd Marcus yn cydnabod y peryglon posib o beidio â chydymffurfio â'i feddyginiaeth. Gofynnodd Marcus am gael ei ryddhau i gyfeiriad ei fam, a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod â Karen.
- 17.33** Yn dilyn hyn, ar ôl trafod â Karen, cychwynnwyd ar gynlluniau i ganiatáu cyfnod o absenoldeb cartref i Marcus. Roedd y teulu'n deall ar yr adeg hon bod Marcus wedi cael ei ryddhau o'i adran dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd Karen yn rhan o drafodaethau a chyfarfodydd a oedd yn ymwneud â Marcus yn dychwelyd adref. Nid oedd Swyddog Prawf Marcus wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch absenoldeb Marcus.
- 17.34** Ar 13 Mai, gadawodd Marcus yr ysbyty ar yr hyn a ddogfennwyd fel absenoldeb awdurdodedig gyda chefnogaeth y Tîm Argyfwng. Dychwelodd Marcus i gyfeiriad Karen. Ymwelodd y Tîm Argyfwng â Marcus y diwrnod canlynol. Roedd Karen a James yn bresennol yn ystod y cyfarfod.
- 17.35** Ar 18 Mai, ffoniodd Karen Swyddog Prawf Marcus a rhoi gwybod iddynt fod Marcus wedi cael ei rhyddhau o'r ysbyty i'w chyfeiriad. Cysylltodd y Swyddog Prawf â'r Tîm Argyfwng a holodd ynghylch y rhyddhau. Dros y dyddiau canlynol, cododd y Swyddog Prawf bryderon ynghylch rhyddhau Marcus gyda gweithwyr iechyd proffesiynol.
- 17.36** Ar 20 Mai, dychwelodd Marcus i'r ysbyty oherwydd y risgiau a gyflwynodd Marcus a nodwyd gan y Swyddog Prawf. Ar yr un diwrnod, cysylltodd Gweithiwr Cymdeithasol â James, fel rhan o gwblhau adroddiad y tribiwnlys.



- 17.37** Ar 22 Mai, cyflwynodd Swyddog Prawf Marcus atgyfeiriad i'r CAAR. Trafodwyd yr achos bedwar diwrnod yn ddiweddarach fel rhan o gyfarfod trafod dyddiol cam-drin domestig.
- 17.38** Ar 4 Mehefin, cafodd Marcus ei ryddhau o'r ysbyty i lety dros dro a ddarparwyd gan yr YMCA fel lleoliad dros dro, hyd nes y nodwyd llety addas parhaol. Roedd Marcus i'w gefnogi gan y Tîm Argyfwng a Headroom. Nid oedd Swyddog Prawf Marcus yn bresennol yn y cyfarfod cynllunio ar gyfer rhyddhau; fodd bynnag, roedd gwybodaeth a rannwyd yn ystod cyfarfodydd panel yn nodi bod Karen, James ac un o chwiorydd Marcus wedi bod yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd cynllunio rhyddhau.
- 17.39** Cofnodwyd bod iechyd meddwl Marcus wedi dirywio ar ôl iddo gael ei ryddhau ac nad oedd yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl na'r gweithiwr cymorth yn yr YMCA. Cofnodwyd tystiolaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn ceisio ymgysylltu â Marcus. Roedd cofnodion hefyd yn dangos bod Karen wedi codi pryderon ynghylch iechyd meddwl Marcus.
- 17.40** Ym mis Gorffennaf, cododd Swyddog Prawf Marcus y pryderon hyn, ac ail-restrwyd yr achos ar gyfer y CAAR; fodd bynnag, penderfynwyd bod yr achos wedi ei drafod ym mis Mai a bod camau gweithredu wedi'u nodi. E-bostiwyd yr holl asiantaethau i ddweud na fyddai'r achos yn cael ei restru yn y CAAR a chafodd yr achos ei dynnu oddi ar y rhestr. Nid oedd unrhyw gofnod bod unrhyw asiantaeth wedi herio'r penderfyniad hwn.

Awst 2020 – Hydref 2020

- 17.41** Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan Marcus lety dros dro yn y YMCA gyda chymorth uniongyrchol yn cael ei ddarparu gan Weithiwr Allweddol yr YMCA a Nyrs Seiciatrig Gymunedol o Headroom, a oedd hefyd yn Gydlynnydd Gofal. Gwrthododd Marcus gymryd rhan mewn trafodaethau am ei iechyd meddwl, ond roedd y Gweithiwr Allweddol a'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol yn cadw cysylltiad rheolaidd. Roedd cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol hefyd yn cael eu cynnal. Gwrthododd Marcus gymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny.
- 17.42** Roedd Swyddog Prawf Marcus yn parhau i fod yn gysylltiedig, ac yn cael cyswllt rheolaidd â Marcus a Karen dros y ffôn, gyda chyngor yn cael ei roi i Karen ynghylch y risgiau o gael Marcus yn y cyfeiriad cartref. Parhaodd Swyddog Prawf Marcus i gysylltu â'r gwasanaethau iechyd meddwl.
- 17.43** Ar 20 Awst, tynnwyd Marcus o gyfeiriad Karen gan yr Heddlu, ac aethpwyd ag ef i'r YMCA, roedd hyn ar gais Karen.
- 17.44** Ar 5 Medi, daeth cyfranogiad y Gwasanaeth Prawf gyda Marcus i ben, gan fod yr oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu wedi dod i ben. Yn ystod y cyswllt olaf â'r Gwasanaeth Prawf, dywedodd Marcus ei fod mewn hwyliau da iawn a dywedodd nad oedd ganddo unrhyw broblemau gyda'i deulu na'i iechyd meddwl.



- 17.45** Ar 9 Hydref, cafodd Seiciatrydd a Nyrs Seiciatrig Gymunedol gyfarfod yng nghartref Karen. Roedd James a Karen yn bresennol. Dywedodd Karen fod Marcus yn ymddangos yn well na phan yn yr ysbyty oherwydd, yn ei barn hi, pan oedd yn yr ysbyty roedd Marcus wedi ymddangos fel pe bai wedi'i orfeddyginiaethu. Fodd bynnag, roedd ei Nyrs Seiciatrig Gymunedol wedi nodi pryderon nad oedd Marcus yn cymryd meddyginiaeth ac roedd angen cynllunio ar gyfer disgyn yn ôl posib. Yn ystod y cyfarfod, roedd Karen o'r farn bod Marcus yn ymddangos yn fwy "fel ef ei hun," cofnodwyd bod James yn anghytuno â hyn.
- 17.46** Roedd cyfarfod yn unol ag Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn cael ei drefnu.
- 17.47** Yn ystod y cyfnod hwn, argymhellodd Karen i wasanaethau iechyd meddwl bod angen datrys sefyllfa dai Marcus a bod yr YMCA yn fesur dros dro ac nad oedd yn addas yn y tymor hwy. Roedd gwybodaeth yn nodi bod Marcus yn aros yn rheolaidd yng nghyfeiriad Karen.
- 17.48** Yn ogystal, drwy gydol y cyfnod hwn gwrthododd Marcus ymgymryd â chymorth neu gymryd rhan mewn prosesau a fyddai'n galluogi rhoi cymorth priodol ar waith ar gyfer ei hawliadau tai/budd-daliadau. Gwrthododd Marcus hefyd ymgysylltu ag unrhyw wasanaethau neu gymorth iechyd meddwl. Cofnodwyd drwy wasanaethau cymorth tai a gwasanaethau iechyd meddwl nad oedd Marcus yn credu bod ganddo unrhyw broblemau iechyd meddwl ac na fyddai'n ymgysylltu â thrafodaethau a oedd yn canolbwyntio ar unrhyw anghenion cymorth a oedd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol y Panel Adolygu

- 18.1** Yn yr adran ganlynol, roedd y Panel Adolygu yn ymwybodol bod y digwyddiadau a oedd yn cael eu hadolygu wedi digwydd rhwng 2018 a 2020, ac y byddai angen i ddadansoddiad o'r digwyddiadau hynny yn 2023 ystyried newidiadau ers hynny i bolisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth, i sicrhau bod y dysgu yn berthnasol i asiantaethau a oedd yn gweithio ar draws y rhanbarth yn 2023.

Cam-drin Domestig

- 18.2** Roedd James wedi dioddef lladdiad domestig. Ni chofnodwyd unrhyw bryderon am gam-drin domestig a'r risg a achoswyd i James gan Marcus, ar wahân i'r digwyddiad ym mis Mehefin 2019 pan ddifrododd Marcus gar James.
- 18.3** Rhwng mis Awst 2018 a mis Awst 2019, bu pum achos o gam-drin domestig, a Karen oedd y dioddefwr. Roedd yr holl ddigwyddiadau hyn wedi cael eu hadrodd i'r Heddlu, a gwblhaodd Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd ac asesiadau risg. Roedd y cam-drin tuag at Karen yn cynnwys cam-drin corfforol, cam-drin geiriol, a difrod troseddol. Roedd yn amlwg i'r Panel Adolygu bod yr achosion o gam-drin domestig wedi digwydd ochr yn ochr â phryderon a godwyd gan Karen ynghylch iechyd meddwl Marcus. Roedd y Panel Adolygu hefyd yn cydnabod bod lefel y trais tuag at Karen wedi dwysáu.



- 18.4** Cafodd Marcus ei arestio ar bedwar achlysur ac ymddangosodd yn y llys ar dri achlysur gwahanol. Plediodd Marcus yn euog am bob trosedd yr oedd wedi ei gyhuddo ohono. Er y cafwyd Marcus yn euog o droseddau cam-drin domestig, nid oedd Karen na James yn awyddus i gefnogi erlyniad, gan mai eu prif ffocws oedd i Marcus dderbyn cymorth mewn perthynas â'i iechyd meddwl.
- 18.5** Mae gan Lys Ynadon Caerdydd Lys Trais Domestig Arbenigol, sy'n eistedd bob dydd Llun. Ymdrinnir ag achosion gan ynadon sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer cam-drin domestig, Barnwyr Rhanbarth, Ymgynghorwyr Cyfreithiol y Llys ac Erlynwyr Gwasanaethau Erlyn y Goron (GEG). Fel arfer mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn bresennol. Ar y tri achlysur yr ymddangosodd Marcus yn y llys yn 2019, ymddangosodd yn y ddalfa, yn llys y ddalfa, ac nid y Llys Trais Domestig Arbenigol.
- 18.6** Rhoddwyd gwybod i'r Panel Adolygu, er na chlywyd yr achosion gan y Llys Trais Domestig Arbenigol y dylai erlynwyr ystyried y risgiau a berir i aelodau'r teulu wrth ymdrin ag achosion cam-drin domestig. Pan fydd diffynyddion yn cael eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned yn dilyn rhoi mechnïaeth neu ddod â'r achos i ben, bydd yr Heddlu'n cael gwybod am y canlyniad, ac yn gyfrifol am reoli materion diogelu ar y cyd ag asiantaethau perthnasol eraill.
- 18.7** Cytunodd y Panel Adolygu fod prif ffocws asiantaethau mewn perthynas â'r risg o gam-drin domestig yn canolbwyntio ar Karen, a oedd wedi'i ddylanwadu gan y ffaith bod Marcus yn byw gyda Karen, a bod y rhan fwyaf o achosion o gam-drin domestig wedi bod tuag ati. Ni welodd y Panel Adolygu unrhyw dystiolaeth o unrhyw ystyriaeth ehangach o fewn cofnodion asiantaethau o'r risg yr oedd Marcus yn ei beri i James ac aelodau eraill o'r teulu.
- 18.8** Ni ystyriwyd y risg o gam-drin domestig yn digwydd eto a'r risg tuag at Karen, James ac aelodau'r teulu yn ystod cyfarfodydd a gynhaliwyd i ystyried rhyddhau Marcus o'r ysbyty. Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, trafododd ymarferwyr nad oedd y risg o gam-drin domestig yn cael ei gydnabod fel risg wrth ryddhau, gan fod y cyfarfodydd cynllunio ar gyfer rhyddhau yn canolbwyntio ar risg uniongyrchol, yn hytrach nag asiantaethau eraill fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf sy'n ystyried digwyddiadau blaenorol i lywio asesiadau risg presennol ac yn y dyfodol. Mae'r broses ryddhau yn cael ei chynnwys yn fanylach yn yr adran hon.
- 18.9** Clywodd yr adolygiad sut mae iechyd yn darparu pecyn hyfforddi sy'n cynnwys Trais a Cham-drin gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant, gan gynnwys cam-drin domestig teuluol. Yn ogystal, datblygwyd timau amlasiantaethol i ymateb i bobl ifanc sydd ar fin troseddu, ac i geisio ymgysylltu â'r unigolion hynny wrth ddarparu cyngor a chymorth. Mae Tîm Atal Trais y GIG sydd bellach ar waith, yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad i gleifion o unrhyw oedran sydd wedi profi trais ag anaf. Mae'r nyrsys a'r eiriolwyr ymroddedig yn ymgysylltu â'r rheini a anafwyd tra byddant yn yr ysbyty gyda'r nod o helpu i dorri'r cylch trais ar adeg argyfwng. Ar ôl rhyddhau, mae'r Timau Atal Trais yn dilyn i fyny gyda'r cleifion i sicrhau bod y cymorth parhaus a drefnir yn ystod ymgysylltu yn dal i fod ar waith ac i ailasesu'r angen am gymorth ychwanegol.



- 18.10** Yn dilyn mynediad at yr adroddiad, dywedodd Karen wrth y Cadeirydd a'r Adolygwyr fod y cam-drin gan Marcus wedi parhau a bod digwyddiadau pan oedd Marcus wedi ymosod arni'n gorfforol. Dywedodd Karen nad oedd wedi adrodd y rhain i Weithwyr Proffesiynol gan ei bod yn ofni y byddai Marcus yn cael ei erlyn a'i droseddoli ac, o bosib, yn dychwelyd i'r carchar. Dywedodd Karen nad oedd hi'n gweld ei hun fel dioddefwr a bod ymddygiad Marcus oherwydd ei iechyd meddwl. Roedd Karen yn cofio digwyddiad pan oedd Marcus wedi ei dyrnu ddwywaith ar ei choes, a'i bod wedi erfyn ar James i beidio â dweud wrth weithwyr proffesiynol mewn cyfarfod y diwrnod canlynol beth oedd wedi digwydd. Dywedodd Karen na ofynnodd unrhyw Weithiwr Proffesiynol iddi erioed, yn dilyn rhyddhau Marcus o'r carchar, ynglŷn â sut roedd ei pherthynas â Marcus ac a fu unrhyw achosion o gam-drin.

Pwynt Dysgu

Nododd yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Karen y rhwystrau sy'n wynebu dioddefwyr cam-drin domestig wrth ganiatáu iddynt drafod achosion o gam-drin, yn enwedig o fewn perthynas deuluol, a'r angen i Weithwyr Proffesiynol fod yn rhagweithiol wrth geisio trafod cam-drin domestig wrth ymgysylltu ag unigolion.

Ymchwil ar Drais a Cham-drin gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant

- 18.11** Mae cydnabyddiaeth gynyddol yn y DU o Drais a Cham-drin gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant (APVA). Mae canllaw gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn nodi¹²:
- 18.12** "Ar hyn o bryd nid oes diffiniad cyfreithiol o drais a cham-drin gan berson ifanc yn y glasgoed tuag at riant. Fodd bynnag, fe'i cydnabyddir fwyfwy fel math o drais a cham-drin domestig, yn dibynnu ar oedran y plentyn, gall fod dan ddiffiniad swyddogol y llywodraeth o drais a cham-drin domestig'.
- 18.13** Mae'r canllaw yn rhoi ychydig o wybodaeth bwysig i ymarferwyr ac, yn benodol, rhai o'r rhwystrau y gallai rhieni eu hwynebu. Er y cydnabuwyd nad oedd Marcus yn berson ifanc yn y glasgoed pan laddodd James, neu pan ymosododd ar Karen, roedd perthynas rhiant/plentyn rhyngddynt o hyd. Felly, roedd y Panel Adolygu o'r farn y gallai peth o'r wybodaeth yn y canllaw fod yn berthnasol yn yr achos hwn, sy'n nodi nad yw pob math o drais a cham-drin domestig yn cael ei adrodd yn ddigonol, a bod rhieni, yn ddealladwy, yn arbennig o amharod i ddatgelu neu adrodd am drais gan eu plentyn.

¹² Canllaw Gwybodaeth: Trais a Cham-drin gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant Mae'r ddogfen hon bellach wedi'i dileu oddi ar wefan y Swyddfa Gartref yn sgil cyflwyno Deddf Cam-drin Domestig 2015.



Ymchwil ar Ddadladdiadau

- 18.14** Myfyriodd y Panel Adolygu ar ymchwil ynghylch tatladdiadau¹³ ac roedd yn cydnabod, er bod tatladdiadau yn gymharol anarferol, mae ymchwil yn dangos nad yw cam-drin pobl hŷn gan feibion a merched yn anarferol. Mae dyfyniad o friff polisi Hourglass¹⁴ "Building a UK-wide Picture of The Abuse of Older People: Domestic Abuse of Older People"¹⁵, yn nodi –

"Dangosodd data o linell gymorth Hourglass o fis Ebrill i fis Medi 2020 fod 12% o alwadau yn ymwneud â cham-drin gan bartner, wrth fod 38% yn ymwneud â mab neu ferch."

- 18.15** Roedd y Panel Adolygu yn cydnabod bod tatladdiad yn faes ymchwil prin sydd wedi'i esgeuluso ar hyn o bryd. Roedd y Panel Adolygu yn ymwybodol o ychydig o ymchwil ddiweddar yn y DU¹⁶ ac er bod yr ymchwil yn darparu rhai canfyddiadau diddorol, nid yw'n rhoi unrhyw fewnwelediad i'r rhwystrau y gallai rhieni eu hwynebu wrth adrodd am gam-drin gan blant.
- 18.16** Nododd y Panel Adolygu ymchwil gan Dr Kathleen M Heide, Prifysgol De Florida, sy'n disgrifio teipolegau tatladdiadau¹⁷. Mae'r ymchwil yn disgrifio tair teipoleg yr oedd y Panel Adolygu yn teimlo bod yr isod yn berthnasol i'r adolygiad hwn –

Y troseddwr tatladdiadau â salwch meddwl difrifol

Mae troseddwr sy'n oedolion yn aml yn cael diagnosis o salwch meddwl difrifol, ac mewn troseddwr sydd yn eu harddegau, mae'r canfyddiadau'n aml yn dangos eu bod mewn cyflwr meddwl cythryblus difrifol ar adeg y llofruddiaeth. Yn fwyaf aml, mae salwch meddwl hirsefydlog wedi'i ddiagnosisio ac mae lladd rhiant neu'r ddau riant yn uniongyrchol gysylltiedig â'r salwch meddwl yn yr achosion hyn.

CAAR

- 18.17** Ni wnaeth yr un o'r achosion o gam-drin domestig a adroddwyd i'r Heddlu, arwain at atgyfeiriad i'r CAAR, gan nad oedd y risg wedi'i graddio'n uchel neu wedi'i chyfeirio ar farn broffesiynol.

¹³ Ystyr TADLADDIAD yw un sy'n llofruddio ei dad, neu ei thad, ei hun.

¹⁴ Hourglass, yr unig elusen ledled y DU sy'n ymroddedig i atal niwed a cham-drin pobl hŷn.

¹⁵ <https://wearehourglass.org/sites/default/files/inline-files/Domestic%20Abuse%20Of%20Older%20People.pdf>

¹⁶ Dr Hannah Bows, Ysgol y Gyfraith Durham: *Where parricide meets eldercide: an analysis of child to parent/grandparent homicides in the UK.*

¹⁷ *Why kids kill parents, child abuse and adolescent homicide*



- 18.18** Ym mis Mehefin 2019, cofnodwyd bod Swyddog Prawf Marcus wedi gwneud atgyfeiriad at y CAAR. Roedd yr atgyfeiriad yn seiliedig ar farn broffesiynol ac yn dilyn arestiad ac euogfarn Marcus am ymosodiad ar Karen ac achosi difrod troseddol i gar James. Rhannwyd copi o atgyfeiriad y CAAR gyda'r Panel Adolygu. Dywedodd yr Heddlu nad oedden nhw wedi derbyn yr atgyfeiriad hwn.
- 18.19** Ym mis Awst 2019, cofnodwyd bod Swyddog Prawf Marcus wedi mynd ar drywydd atgyfeiriad y CAAR, gan fod Marcus bellach yn bwrw dedfryd o garchar yn dilyn ymosodiad pellach ar Karen. Dywedodd yr Heddlu nad oedd ganddyn nhw gofnod o unrhyw gysylltiad gan y Gwasanaeth Prawf ar y mater hwn.
- 18.20** Nid oedd y Swyddog Prawf dan sylw, ar yr adeg hon, yn cael ei gyflogi gan y Gwasanaeth Prawf pan ddechreuodd yr adolygiad, ac nid yw'r Adolygwyr Annibynnol wedi gallu siarad ag ef i gasglu rhagor o wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch cyflwyno'r atgyfeiriad at y CAAR.
- 18.21** Trafodwyd yr achos mewn cyfarfod trafod cam-drin domestig amlasiantaethol ar 4 Medi. Arweiniodd hyn at gyfres o gamau gweithredu, gan gynnwys gwaith i symud arestiad Marcus yn ei flaen wedi hynny, am dorri amodau ei drwydded.
- 18.22** Y diwrnod canlynol, trafodwyd yr achos mewn cyfarfod CAAR frys. Roedd y Panel Adolygu yn cydnabod bod y ddau gyfarfod olaf hyn wedi arwain at gyfres o gamau gweithredu a fyddai'n arwain at leihau'r risg tuag at Karen; fodd bynnag, roedd y Panel Adolygu yn pryderu am yr oedi amlwg cyn i'r achos gael ei adolygu a'i drafod mewn fforwm amlasiantaethol ar ôl cael ei gyfeirio at y CAAR yn gyntaf rhyw dri mis ynghynt. Er i'r Heddlu hysbysu'r Panel Adolygu nad oeddent wedi derbyn yr atgyfeiriad ym mis Mehefin 2019, roedd yn ymddangos i'r Panel Adolygu y gallai fod rhagdybiaeth wedi bod gan y Swyddog Prawf fod hwn wedi dod i law, gan na aethpwyd ar drywydd yr atgyfeiriad hyd at ddau fis yn ddiweddarach ac felly, nid oedd y risg a nodwyd yn cael sylw.

Pwyntiau Dysgu

Cyfrifoldeb Gweithwyr Proffesiynol ar ôl cwblhau a chyflwyno atgyfeiriadau'r CAAR, o ran gwirio derbyn atgyfeiriad a chyfrifoldeb am reoli risg nes bod atgyfeiriad y CAAR yn cael sylw.

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, rhannwyd gwybodaeth am sut roedd prosesau a thrafodaeth y CAAR am ddigwyddiadau cam-drin domestig mewn fforwm amlasiantaethol wedi newid ers yr achos hwn. Dywedodd ymarferwyr fod ffocws bellach ar gynnal trafodaethau dyddiol i sicrhau yr ymatebwyd yn brydlon i risgiau a nodwyd a bod yr achosion hynny a aseswyd yn uchel wedyn yn cael eu symud ymlaen i'r CAAR.

Gwnaeth ymarferwyr yn y Digwyddiad Dysgu fynegi pryderon, yn eu barn nhw, bod gwrthdaro buddiannau yn y ffaith bod Cadeirydd y cyfarfodydd trafod dyddiol a'r CAAR yr un peth ar gyfer y ddwy broses. Nododd ymarferwyr hefyd eu bod yn teimlo y dylai Cadeirydd y CAAR fod yn berson yr oedd ei rôl yn Uwch o fewn eu Sefydliad i



oruchwylio'r trafodaethau ynghylch rheoli risg a dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â'r risg honno.

Gorchymyn Atal

- 18.23** Cafodd y Gorchymyn Atal, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019, ei ryddhau gan y Llysoedd ym mis Rhagfyr 2019, sef pedwar mis ar ôl i'r gorchymyn gael ei gyhoeddi a phedair wythnos ar ôl i Marcus gael ei ryddhau o'r carchar. Cafodd y cais i'r Gorchymyn Atal gael ei ryddhau ei wneud gan Karen, oedd wedi llenwi ffurflen gais ar-lein. O fewn y cais, roedd Karen wedi nodi bod Marcus wedi dod yn agored i niwed ac roedd ei iechyd meddwl wedi dirywio a, thrwy gael gwared ar y Gorchymyn Atal, y gobaith oedd ceisio cymorth iechyd meddwl proffesiynol. Dywedodd y teulu fod y Gorchymyn Atal yn atal Karen rhag cefnogi Marcus i geisio cymorth gyda'i iechyd meddwl. Dywedodd y teulu nad oeddent wedi siarad â neb yn ystod y gwrandawriad, ar wahân i'r Ynad, ynghylch y rhesymau dros eu cais. Dywedodd y teulu nad oedd unrhyw ymchwilio nac eglurhad ynghylch iechyd meddwl Marcus nac mewn perthynas â cham-drin domestig.
- 18.24** Mae'r broses o ystyried rhyddhau Gorchymynion Atal yn dod o dan Reolau Gweithdrefn Droseddol, rheol 31.5 a Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, adran 5, a phan wneir cais, cyfeirir y cais at Gynghorydd Cyfreithiol i'w ystyried. Rhoddwyd gwybod i'r Panel Adolygu ei bod yn ymddangos bod trefn ar y cais y tro hwn, a bod cyfarwyddiadau wedi'u rhoi ar gyfer restru'r mater gerbron y llys.

Hysbysiad o gais i ryddhau Gorchymyn Atal

- 18.25** Nododd Llysoedd EF yr adolygiad eu bod wedi anfon e-bost at y rheini a restrir isod, ar 28 Tachwedd 2019, yn eu hysbysu o'r cais a dyddiad y gwrandawriad. Roedd yr e-bost yn cynnwys copi o'r cais -
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
 - Gofal Tystion, Heddlu De Cymru
 - Tîm y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Pen-y-bont ar Ogwr
 - Cymru Ddiogelach
 - Karen
- 18.26** Dywedodd Llysoedd EF wrth yr adolygiad bod llythyr wedi ei anfon at y Swyddog Heddlu yn yr achos drwy wasanaeth cludo mewnol, ac y gofynnwyd i'r Swyddog Heddlu a oedd ganddynt unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cais. Ni dderbyniodd y Swyddog Heddlu lythyr nac e-bost.
- 18.27** Anfonodd Llysoedd EF lythyr at gyfeiriad cartref Marcus i'w hysbysu o'r cais. Darparwyd cyfeiriad Marcus gan Karen, a oedd hefyd yn gyfeiriad cartref iddi.
- 18.28** Gofynnodd y Panel Adolygu am wybodaeth gan y rheini yr hysbysodd Llysoedd EF, ac eithrio Karen, gan eu bod yn awyddus i wybod pa gamau gweithredu a gymerwyd ar ôl derbyn yr e-bost. Mae'r ymatebion wedi'u cofnodi isod –



Gwasanaeth Erlyn y Goron

- 18.29** Dywedodd y GEG wrth y Panel Adolygu nad oedd yr e-bost gan Lysoedd EF yn gofyn am ymateb nac yn gofyn am gymorth y GEG. Doedd dim cofnod ar system rheoli achosion y GEG bod y GEG wedi ymateb i'r cais. Paratowyd bwndel o ddogfennau o'r ffeil achos, gan gynnwys copi o'r cais i'w rhyddhau, ar gyfer yr erlynydd cyn y gwrandawriad ar 16 Rhagfyr 2019. Doedd dim cofnod ar system rheoli achosion y GEG ynghylch a gymerodd yr erlynydd (a oedd yn y llys ar 16 Rhagfyr 2019) ran yn y gwrandawriad. Yn yr un modd, nid yw cofnodion y llys yn nodi a wnaeth yr erlynydd gymryd rhan yn y gwrandawriad.

Gofal Tystion, Heddlu De Cymru

- 18.30** Yn yr achos hwn, ni chafwyd unrhyw gyfarwyddyd gan Lysoedd EF i hysbysu naill ai'r Swyddog Heddlu yn yr achos, neu unrhyw adran o'r Heddlu, neu unrhyw swyddog arall a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad neu reoli'r risgiau cam-drin domestig. Gan na chafodd y Swyddog Heddlu ei alw fel tyst, ni chafodd wybod am y gwrandawriad llys.

Tîm y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Pen-y-bont ar Ogwr

- 18.31** Dylid nodi nad oes gan Dîm y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Pen-y-bont ar Ogwr, gyfrifoldeb am achosion yng Nghaerdydd. Achos o Gaerdydd oedd hwn. Dywedodd Tîm y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig fod y gwasanaeth wedi'i ailstrwythuro ers yr adeg hon, ac nad oeddent yn gallu cadarnhau na gwadu bod e-bost wedi'i dderbyn.

Cymru Ddiogelach

- 18.32** Tan fis Mawrth 2018, Cymru Ddiogelach oedd yn gyfrifol am wasanaeth y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn y Llysoedd Trais Domestig Arbenigol yn Ynadon Caerdydd, ac felly nid oeddent yn y swydd ar yr adeg hon. Doedd dim cofnod ganddynt o dderbyn yr e-bost.

Llysoedd EF

- 18.33** Mae'r llysoedd wedi nodi na ddylai hwn fod wedi mynd i'r gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Swyddog yr Heddlu yn yr achos

- 18.34** Ni dderbyniodd Swyddog yr Heddlu lythyr nac e-bost oddi wrth Lysoedd EF.



Hysbysiad Arall

- 18.35** Roedd y cais yn nodi pryderon gan Karen am iechyd meddwl Marcus, a dywedodd y byddent yn ceisio cymorth iechyd meddwl proffesiynol i Marcus drwy geisio cael gwared ar y gorchymyn atal. Ni ofynnodd Llysoedd EF, y GEG nac unrhyw asiantaeth a oedd wedi derbyn hysbysiad o'r cais, am wybodaeth gan y teulu am natur y sylwadau, neu pa gymorth ac ymgysylltiad yr oedd y teulu yn ei dderbyn gan y gwasanaeth iechyd meddwl, er mwyn rhoi gwybod i'r gwrandawriad llys a oedd i ystyried y cais i gael gwared ar y gorchymyn atal.
- 18.36** Roedd Marcus dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf ar yr adeg hon, ac ni chawsant wybod bod cais a rhyddhau wedi hynny o'r Gorchymyn Atal wedi'i wneud. Dywedodd y Gwasanaeth Prawf wrth y Panel Adolygu y dylai'r Llys Ynadon Prawf fod wedi cael ei hysbysu er mwyn caniatáu i'w cofnodion gael eu diweddarau.
- 18.37** Hysbysodd Llysoedd EF fod y ceisiadau i amrywio neu ryddhau Gorchymynion Atal yn cael eu clywed yn y llys lle cawsant eu clywed yn wreiddiol, ac nad yw'r hysbysiad yn cael ei roi yn awtomatig i'r Gwasanaeth Prawf.
- 18.38** Gofynnodd y Panel Adolygu am eglurhad gan Lysoedd EF ynghylch a yw hysbysiadau o geisiadau yn benodol i achos neu a anfonir pob cais at restr e-bost generig. Cadarnhaodd y Llysoedd fod y rhestr yn wahanol yn ôl yr ardal lle mae'r achwynydd, sy'n cael ei warchod gan y gorchymyn atal, yn preswyllo. Yn yr achos hwn, ni aeth yr hysbysiad i'r gwasanaethau cam-drin domestig lle'r oedd Karen yn byw.

Gwrandawriad Llys

- 18.39** Dywedodd Llysoedd EF wrth y Panel Adolygu ei bod yn agored i unrhyw barti gerbron y llys i wneud cais am ohirio achos lle mae rhyddhau Gorchymyn Atal yn cael ei ystyried. Dywedodd Llysoedd EF nad oedd unrhyw sylwadau wedi'u gwneud ar ddiwrnod y gwrandawriad.
- 18.40** Dywedodd y GEG wrth y Panel Adolygu nad yw'r GEG yn ymateb yn rheolaidd i geisiadau o'r fath a bod canllawiau'r GEG ar Orchymynion Atal¹⁸ yn darparu gwybodaeth am rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron pan wneir ceisiadau i amrywio neu ryddhau Gorchymynion Atal. Mae hyn yn nodi, lle mae dioddefwr, yn yr achos hwn, Karen, yn ceisio amrywio'r gorchymyn atal, nid yw'r ddeddfwriaeth yn datgan yn benodol a ddylai Gwasanaeth Erlyn y Goron fod yn gysylltiedig. Nid oes gofyniad na disgwyliad bod erlynydd y GEG yn bresennol pan ymdrinnir â cheisiadau o'r fath, fodd bynnag, bydd ceisiadau'n aml yn cael eu rhestru mewn llys gydag achosion eraill, a gall erlynydd y GEG fod yn bresennol yn y llys. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n nodi mai rôl y GEG yw cynorthwyo'r llys/amddiffyniad drwy roi ffeithiau o'r achos wreiddiol a'r gorchymyn.

¹⁸ <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/restraining-orders>



- 18.41** Hysbyswyd y Panel Adolygu, pan wneir ceisiadau ar gyfer ryddhau Gorchmynion Atal yna pan fydd yr achos yn cael ei glywed gerbron Llys Trais Domestig Arbenigol, yna efallai y bydd Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn bresennol, ac yn gallu cynorthwyo'r dioddefwr. Ni chlywyd y gwrandawriad llys ar gyfer cais Karen mewn Llys Trais Domestig Arbenigol.

Hysbysiad o ryddhau Gorchymyn Atal

- 18.42** Hysbysodd Llysoedd EF yr adolygiad y byddai llythyr hysbysu wedi'i anfon yn awtomatig at Karen a Marcus yn nodi bod y Gorchymyn Atal wedi ei ryddhau.
- 18.43** Cyn gynted ag y cwblhawyd yr achos (dilyswyd) yna cafodd Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ei ddiweddarau gyda'r canlyniad.
- 18.44** Nododd yr adolygiad nad oedd asiantaethau yn ymwybodol bod y Gorchymyn Atal wedi ei ryddhau. Dangosodd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r adolygiad fod asiantaethau, o'r dyddiad y cafodd y Gorchymyn Atal ei ryddhau, yn gwneud penderfyniadau ar reoli Marcus a'r risg yr oedd yn ei pheri i Karen, gyda chanfyddiad bod y Gorchymyn Atal yn dal i fod ar waith.

Ymwybyddiaeth o brosesau i geisio amrywiad neu ryddhau Gorchymyn Atal

- 18.45** Gofynnodd y Panel Adolygu am wybodaeth gan asiantaethau ynghylch eu gwybodaeth am y prosesau ar gyfer ceisio amrywiad neu ryddhau Gorchymyn Atal. Nid oedd yr asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r broses adolygu yn ymwybodol o'r prosesau sy'n ymwneud â gwneud ceisiadau, hysbysu am wrandawiadau llys a chanlyniadau a arweiniodd at ragdybiaeth gyffredinol, a amlygwyd yn yr adolygiad hwn, nad oedd gan y Gweithwyr Proffesiynol hynny a oedd yn rhan o'r achos unrhyw wybodaeth bod y Gorchymyn Atal wedi ei ryddhau, ac roedd yr asiantaethau hynny'n cyfeirio at y Gorchymyn Atal, ac yn ystyried, ei fod yn dal i fodoli fel rhan o'u prosesau rheoli risg. Fodd bynnag, dylid nodi bod y Gorchymyn Atal wedi ei ddileu ddeng mis cyn marwolaeth James, o fewn y cyfnod hwnnw ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau pellach o gam-drin domestig.

Pwyntiau Dysgu

Gwybodaeth am brosesau sy'n ymwneud â gwneud ceisiadau, hysbysiadau a disgwyliadau ar bartïon â diddordeb wrth ymateb i geisiadau am amrywio a/neu ryddhau Gorchmynion Atal.

Argaeledd cefnogaeth yn ystod y broses gwneud ceisiadau a gwrandawiadau llys.

Cyfrifoldeb Gweithwyr Proffesiynol wrth geisio dilysu bodolaeth Gorchmynion Sifil wrth asesu a rheoli risg.



Ymateb i leihau'r risg o aildroseddu

- 18.46** Cytunodd y Panel Adolygu bod ymateb da gan asiantaethau i'r achosion o gam-drin domestig. Cafodd Marcus ei arestio ar bedwar achlysur ac ymddangosodd yn y llys ar dri achlysur gwahanol. Plediodd Marcus yn euog am yr holl droseddau yr oedd wedi eu cyhuddo ohonynt, a chytunodd y Panel Adolygu fod y dedfrydau a osodwyd yn briodol ar gyfer y troseddau a oedd wedi digwydd. Erbyn i Marcus gael ei ddedfrydu i gyfnod o garchar, roedd hi'n amlwg i'r Panel Adolygu bod lefel y trais tuag at Karen wedi cynyddu.
- 18.47** Ym mis Medi 2019, trafodwyd Marcus yng nghyfarfod Panel Sgrinio Amlasiantaethol Rheoli Integredig Troseddwy¹⁹; fodd bynnag, ni chafodd ei ddewis. Hysbyswyd y Panel Adolygu mai yn y Panel Sgrinio Amlasiantaethol yr awgrymwyd bod Marcus yn cael ei gyfeirio at WISDOM²⁰ - Rheoli Troseddwy Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru, sy'n debyg i Reoli Integredig Troseddwy ac sy'n fenter ar y cyd i'r Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf, ond mae'r ffocws ar y troseddwy hynny sy'n cael eu hasesu fel risg uchel o niwed difrifol a risg uchel o aildroseddu.
- 18.48** Hysbyswyd y Panel Adolygu gan Aelod y Panel Prawf fod y camau gweithredu i atgyfeirio Marcus at Reoli Integredig Troseddwy i archwilio dulliau eraill o weithio gyda Marcus, oherwydd y pryderon risg, yn briodol; fodd bynnag, nid oedd yn glir pam na ddewiswyd Marcus ac ymddengys nad oedd yr awgrym i'w gyfeirio at TADC/WISDOM wedi ei symud ymlaen. Pe bai Marcus wedi ei reoli dan Reoli Integredig Troseddwy neu TADC/WISDOM, efallai y byddai hyn wedi caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth a chynllunio rheoli risg mwy effeithiol.
- 18.49** Ystyriodd y Panel Adolygu a ellid fod wedi atgyfeirio Marcus at TADC²¹; fodd bynnag, roedd euogfarnau Marcus yn golygu nad oedd yn gymwys i gael ei atgyfeirio. Cadarnhaodd aelod y Panel Prawf na fyddai Marcus wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer Lefel 2 TADC gan nad oedd y darlun llawn yn hysbys bryd hynny, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.
- 18.50** Roedd y Panel Adolygu yn awyddus i ddeall a oedd Marcus wedi ymgymryd ag unrhyw waith a oedd yn canolbwyntio ar droseddu dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf. Hysbyswyd y Panel Adolygu fod diffyg cwblhau unrhyw waith a oedd yn canolbwyntio ar droseddu gyda Marcus, a briodolwyd i nifer o ffactorau a oedd yn cynnwys amser Marcus, roedd yn torri amodau'r drwydded ac 'yn rhydd' ac oherwydd ei gyfnod yn yr ysbyty. Cafodd Marcus ei ryddhau o'r ysbyty ar 5 Mehefin a daeth ei oruchwyliaeth statudol i ben ar 5 Medi 2020, a olygai fod cyfnod o 3 mis lle gellid bod wedi cwblhau gwaith a oedd yn canolbwyntio ar

¹⁹ <https://www.gov.uk/guidance/integrated-offender-management-iom>

Mae Rheoli Integredig Troseddwy yn dod ag ymateb trawsasiantaethol i'r troseddau a'r bygythiadau aildroseddu sy'n wynebu cymunedau lleol. Mae'r troseddwy mwyaf parhaus a phroblematig yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd.

²⁰ <https://www.iomcymru.org.uk/WISDOM/>

²¹ <https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-public-protection-arrangements-mappa-guidance>



droseddu. Cafodd y Panel Adolygu wybod nad oes ymyrraeth benodol ar gyfer cam-drin teuluol ac, yn ystod y cyfnod hwn, dim ond mewn slotiau 15 munud y caniatwyd i'r Gwasanaeth Prawf weld pobl oherwydd pandemig COVID-19.

Pwynt Dysgu

Opsiynau ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd yn ymwneud â cham-drin domestig teuluol i gymryd rhan mewn rhaglenni rheoli troseddwr penodol.

Mae'r gwasanaeth prawf wedi rhoi newidiadau ar waith i gyflawnwyr cam-drin domestig, a aseswyd fel risg uchel o niwed difrifol, sef y dylid eu hystyried ar gyfer Lefel 2 TADC.

Iechyd Meddwl

- 18.51** Dechreuodd y llinell amser a ystyriwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn 2018, ar yr adeg hon nodir bod y teulu'n adrodd bod golwg ac ymddygiad Marcus yn groes i'w gymeriad, ac roedd Karen yn cysylltu â'r Heddlu i gynorthwyo gyda symud Marcus o'r cyfeiriad cartref. Cafodd Marcus ei arestio am y tro cyntaf ym mis Awst 2018 yn dilyn difrod troseddol i'r cartref. Ar yr adeg hon, mae cofnodion asiantaeth yn dangos y cydnabuwyd bod gan Marcus broblemau yn ymwneud ag iechyd meddwl, a gofynnwyd cwestiynau penodol iddo ynghylch a oedd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl neu iselder ac ymatebodd Marcus iddynt, Nac oedd. Gwnaeth teulu Marcus barhau i leisio eu pryderon am iechyd meddwl Marcus wrth gysylltu ag asiantaethau fel yr Heddlu/gwasanaethau iechyd, am gymorth.
- 18.52** Adroddodd y teulu fod golwg ac ymddygiad Marcus yn peri pryder drwy gydol cyfnod yr adolygiad hwn. Eu hatgofion o'r cyfnod hwn oedd bod Marcus yn eu barn hwy yn sâl iawn, ac y gallai unrhyw un a oedd yn dod i gysylltiad ag ef weld hyn. Er bod hyn yn amrywio, ar y cyfan dyma sut roedd y sefyllfa gyda Marcus. Mae'r teulu'n cofio Marcus yn rhoi sigarêts wedi'u cynnau yn ei wallt ac yn ei sanau; byddai'n cyfeirio ato'i hun fel "Duw" ac "Iesu Grist"; ni fyddai'n bwyta am ddyddiau ar y tro; roedd yn dioddef gan baranoia ac yn rhithdybiol; yn dreisgar ac yn ymosodol tuag at y teulu; roedd yn difrodi eitemau ac eiddo yng nghartref Karen; nid oedd ganddo lawer o ymwybyddiaeth o'i hunanofal a'i hylendid ei hun.
- 18.53** Cysylltodd mam Marcus â'r gwasanaeth Meddygon Teulu nifer o weithiau, gan fynegi pryder am iechyd meddwl Marcus a gwnaed apwyntiadau i Marcus fynd i'r feddygfa, nid oedd yn bresennol yn unrhyw un o'r apwyntiadau a gynigiwyd.
- 18.54** Oherwydd y pryderon cynyddol oedd yn cael eu mynegi gan y fam mewn perthynas ag iechyd meddwl gwael Marcus, a'i ddiffyg ymgysylltu parhaus ag unrhyw wasanaethau cymorth, cynhaliodd y Meddyg Teulu a'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol o'r Nyrsys Iechyd Meddwl Cymunedol, yn y practis Meddygon Teulu, ymweliad cartref i weld Marcus ym mis Awst 2018. Cynhaliwyd asesiad o'i iechyd meddwl yn ystod yr ymweliad hwn a nodwyd bod Marcus yn ddiog pan ofynnwyd cwestiynau iddo, a nodwyd ei fod yn bryderus, yn amheus/paranoid ond yn gallu rhesymoli hyn. Barnwyd ar yr adeg hon nad oedd angen ymyrraeth bellach ar Marcus ac nad oedd angen unrhyw ymyriadau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.



- 18.55** Nodwyd yn ystod trafodaeth banel, a digwyddiadau dysgu'r ymarferwyr a'r rheolwyr, bod yr ymweliad hwn yn enghraifft o arfer cadarnhaol, da. Ymwelodd y Meddyg Teulu a'r Nyrs Iechyd Meddwl Cymunedol, a chynhaliwyd asesiadau priodol. Nid dyma'r arfer arferol ac roedd y tu hwnt i'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl. Nododd yr adolygiad nad yw'r trefniant hwn bellach ar waith, ac nad oes rôl Nyrs Iechyd Meddwl Cymunedol wedi'i chynnwys fel rhan o'r feddygfa. Mae'r adolygiad hwn yn argymhell bod y pwynt hwn yn cael ei amlygu i arweinydd strategol mewn gwasanaethau iechyd i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.
- 18.56** Cynigiwyd apwyntiadau dilynol i Marcus gyda Meddyg Teulu a Nyrs Iechyd Meddwl Cymunedol, ond eto, nid oedd yn bresennol mewn unrhyw un o'r apwyntiadau hyn.
- 18.57** Gwelwyd Marcus eto gan y gwasanaeth iechyd meddwl ym mis Hydref 2018, yn dilyn arestio Marcus am ymgais i gyflawni bwrghleriaeth, nid oedd hyn yn gysylltiedig â'i deulu a digwyddodd mewn ardal wahanol o'r ddinas. Pan oedd yn y ddalfa, fe'i gwelwyd gan Weithiwr Gofal Iechyd Meddwl Proffesiynol a Dyfodol. Gwelwyd Marcus gan y gwasanaeth hwn oherwydd y cydnabuwyd bod y teulu wedi bod yn mynegi eu pryderon am iechyd meddwl Marcus, ac mewn perthynas â deall gallu Marcus i ymgysylltu ag unrhyw gyfweiliad tra yn y ddalfa, gan sicrhau ei ddiogelwch a'i les. Yn ystod yr asesiad cychwynnol hwn gyda Marcus, nid oedd yn adrodd am broblemau iechyd meddwl, roedd yn ymddwyn yn elyniaethus ac anghydweithredol, ond parhaodd yr asesiad, gan gydnabod a chofnodi ymwybyddiaeth o bryder cynyddol gan y teulu, ac ymweliad â Meddyg Teulu/TIMC ym mis Awst. Roedd y nyrs iechyd meddwl wedi cysylltu â'r TIMC a'r Meddyg Teulu i lywio eu dealltwriaeth ac roedd ymholiad y gallai fod gan Marcus broblem iechyd meddwl a oedd yn datblygu.
- 18.58** Nid oedd yr asesiad hwn yn pennu unrhyw faterion iechyd meddwl uniongyrchol ar y diwrnod hwnnw, ac ni nodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â'i allu na'i wybyddiaeth. Dywedodd Marcus drwy gydol yr asesiad nad oedd ganddo unrhyw broblemau gyda'i iechyd meddwl. Cadarnhaodd Marcus ei fod yn defnyddio cannabis yn ddyddiol, a ddywedodd yn ei eiriau ei hun, "mae yn fy helpu gyda fy iechyd meddwl". Canlyniad yr asesiad ar yr adeg honno oedd nad oedd tystiolaeth o unrhyw anghenion iechyd meddwl aciwt a chynghorwyd Marcus i ofyn am gymorth gan y Meddyg Teulu os oedd angen.

Ymchwil sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ganabis cryfder uchel a seicosis

- 18.59** Mae Rethink Mental Health yn elusen flaenllaw ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r wybodaeth ar eu gwefan yn rhoi trosolwg o sut y gall cannabis ryngweithio ag iechyd meddwl unigolyn (Cannabis ac Iechyd Meddwl) [How does cannabis affect my mental health? \(rethink.org\)](https://www.rethink.org/uk/mental-health/cannabis-affect-my-mental-health/). Cydnabyddir yn eang bod graddau amrywiol o gryfder ac iaith yn cael eu defnyddio i ddisgrifio gwahanol fathau o ganabis. Dangoswyd bod amllder y defnydd, cryfder y cannabis sy'n cael ei ddefnyddio, a hwyliau sylfaenol neu anhwylder iechyd meddwl, yn cyfrannu at ddatblygiad seicosis mewn rhai unigolion o ganlyniad. [High potency cannabis](https://www.rethink.org/uk/mental-health/cannabis-affect-my-mental-health/)



[linked to higher rates of psychosis | Archif y wefan | Coleg y Brenin Llundain \(kcl.ac.uk\)](#)

Pwyntiau Dysgu

Dyma'r enghraifft gyntaf a gofnodwyd o Marcus yn adrodd am ddefnydd canabis dyddiol. Nid oes llawer o ffocws ar sut mae'r lefel hon o ddefnydd canabis yn effeithio naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar iechyd meddwl Marcus, a/neu symptomau seicosis.

Tystiolaeth glir nad yw Marcus yn cydnabod bod ganddo unrhyw broblemau/anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Nid oedd Marcus yn bresennol yn unrhyw un o'r apwyntiadau oedd yn cael eu cynnig gan y Meddyg Teulu na'r TIMC. Problemau gyda chydbwysu'r radd hon o ddirywiad/cyflwyniad iechyd meddwl (lefel is nag ymyrraeth Deddf Iechyd Meddwl) â'r risgiau a'r pryderon sy'n cael eu mynegi gan y rheini sydd agosaf ato.

Roedd yn amlwg nad oedd Marcus yn bresennol mewn apwyntiadau dilynol gyda'r Meddyg Teulu a/neu Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol yn y ddwy flynedd cyn iddo gael ei gadw yn yr ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Y dull a ddefnyddiwyd i gynnwys Marcus oedd cynnig apwyntiadau dilynol neu gynghori'r teulu i gysylltu â Meddyg Teulu os oeddent yn bryderus. Fodd bynnag, roedd yn amlwg na fyddai Marcus yn ymgysylltu â gwasanaethau yn y ffordd hon, ac roedd hyn yn rhwystr amlwg i Marcus a'r teulu. Nid oedd cyfle i ddatblygu dealltwriaeth broffesiynol o anghenion iechyd meddwl Marcus yn y gymuned, o safbwynt cyfannol, a dim cyfle i feithrin unrhyw berthynas na lefel dealltwriaeth o gyflwyniad ac anghenion unigol Marcus.

- 18.60** Doedd dim cyswllt pellach â Marcus gan y Meddyg Teulu na'r gwasanaethau iechyd meddwl am weddill 2018.
- 18.61** Yn gynnar yn 2019, cysylltodd Karen â'r Meddyg Teulu gan ddweud nad oedd iechyd meddwl Marcus yn well ac nad oedd bellach yn gadael y tŷ. Sefydlwyd, wrth ystyried llinellau amser, nad oedd Marcus yn gweithio ar yr adeg hon a'i fod wedi bod yn derbyn tystysgrifau salwch gan y Meddyg Teulu yn dweud nad oedd Marcus yn gallu gweithio oherwydd gorbryder ac iselder. Adnewyddwyd y tystysgrifau salwch hyn heb unrhyw dystiolaeth bod y Meddyg Teulu wedi gweld Marcus pan ddaeth pob tystysgrif salwch i ben.
- 18.62** Gwnaed cyswllt pellach â'r Heddlu ym mis Mawrth 2019, pan ymosododd Marcus ar ei fam yn gorfforol, digwyddodd hyn yn y gymuned, yn ôl pob sôn, yn dilyn trafodaeth rhwng Marcus a Karen lle'r oedd hi wedi dweud na allai fyw gyda hi bellach, gan na allai reoli ei dymer a'i ymddygiad mwyach. Ar ôl iddo gael ei arestio am y drosedd hon, cynhaliwyd asesiad risg gan yr Heddlu a oedd yn gofyn am unrhyw broblemau iechyd meddwl, dywedodd Marcus nad oedd ganddo unrhyw broblemau. Ar yr achlysur hwn ni welodd y GGIP* tra yn y ddalfa. Cafodd Marcus wybodaeth a chynghor unwaith eto ar sut i geisio cymorth ar gyfer ei iechyd meddwl, a gwybodaeth mewn perthynas ag asiantaethau cymorth



cyffuriau. Parhaodd Marcus i ddweud nad oedd ganddo broblemau gyda'i iechyd meddwl, na'i ddefnydd o gyffuriau.

- 18.63** Yn dilyn arestiad pellach am ddifrod troseddol i gar James ym mis Mai 2019, cafodd Marcus ei weld eto gan y GGIP tra yn y ddalfa. Yn ystod y cyswllt hwn, dywedodd Marcus ei fod yn cael cyswllt rheolaidd gyda'i dad, er ei fod yn byw i ffwrdd o gartref y teulu, a disgrifiodd blentyndod hapus. Dywedodd Marcus mai Rastaffariad oedd ei dad ac er bod ei rieni wedi gwahanu, roedden nhw'n treulio eu dyddiau gyda'i gilydd. Cofnodwyd, yn dilyn y cyswllt hwn, nad oedd yn ymddangos bod gan Marcus anghenion a oedd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl. Ymddengys bod hyn yn gwbl groes i sylwadau a barn y teulu, a oedd yn parhau i ddatgan bod iechyd meddwl Marcus yn dirywio.
- 18.64** Mae'r teulu wedi ailadrodd trwy gydol yr adolygiad hwn bod defnydd canabis Marcus yn hysbys iddynt, ond nid oedd hyn yn rhywbeth oedd yn cael ei ganiatáu na'i gefnogi gan James a Karen. Fel y cyfeiriwyd ato o'r blaen, roedd gan James ffiniau a disgwyliadau clir ar gyfer pob un o'r plant, ac ni fyddai'n caniatáu i Marcus smygu canabis yn ei bresenoldeb nac annog na chefnogi ei ddefnydd ohono.
- 18.65** Oherwydd iddo dorri amodau mechnïaeth/trwydded blaenorol, roedd Marcus yn bresennol yn y llys y diwrnod canlynol, ac fe'i gwelwyd eto gan ymarferydd cyswllt iechyd meddwl y llys. Cysylltodd ymarferydd cyswllt iechyd meddwl y llys â'r teulu i ganfod eu barn, eu pryderon a'u problemau mewn perthynas ag iechyd meddwl Marcus a'r amser a dreuliodd gyda Marcus. Dywedodd Marcus nad oedd unrhyw bryderon am ei iechyd meddwl. Cofnodwyd nad oedd tystiolaeth o anhwylder meddwl, roedd mewn hwyliau da ac roedd yn ymatebol. Nodwyd bod yr ymarferydd wedi cofnodi nad oedd amser ar gyfer Asesiad Deddf Iechyd Meddwl oherwydd cyfyngiadau amser a bod Marcus yn cael ei ryddhau o'r ddalfa, wrth hefyd gofnodi bod Marcus yn gwrthod unrhyw gymorth pellach neu asesiad.
- 18.66** Cysylltodd Karen â gwasanaeth 111 y GIG ar yr un diwrnod ag yr ymddangosodd Marcus yn y llys, gan fynegi ei phryderon parhaus am ei mab, ei wadiad ei fod yn profi unrhyw broblemau iechyd meddwl a'r trais corfforol tuag ati. Cyfeiriodd at y cyswllt â gwasanaeth iechyd meddwl y ddalfa, ac ymholodd pam nad oeddent wedi sylwi ar y problemau hyn. Roedd hon yn drafodaeth hir, ac fe ganiataodd y clinigydd amser i Karen drafod y sefyllfa a'i phryderon am Marcus. Cydnabuwyd gan y Panel Adolygu fod opsiynau cyfyngedig o ran gwasanaethau cymorth iechyd meddwl y gellid eu hatgyfeirio atynt.

Pwynt Dysgu

Dywedodd Karen wrth y Cadeirydd a'r Adolygwyr Annibynnol fod y cam-drin corfforol gan Marcus wedi parhau ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar ac yn yr ysbyty. Er y nodwyd bod gweithwyr proffesiynol yn rhyngweithio â Karen am gyfnodau hir ynghylch darparu cymorth, nid oedd tystiolaeth bod Karen wedi cael ei holi'n



uniongyrchol a oedd y cam-drin yn parhau, a heb y ffocws hwn, nid oedd ystyriaethau Gofyn a Gweithredu'n amlwg.

- 18.67** Daeth y gwasanaeth prawf yn rhan o'r achos am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2019. Derbyniodd Marcus ryddhad diamod o 12 mis ar gyfer ymosodiad Adran 39 yn erbyn ei fam ym mis Mawrth 2019, a'r digwyddiad pellach o ddifrod troseddol. Nid oedd gofyniad goruchwyllo gan y gwasanaeth prawf ar yr adeg hon. Cafodd Marcus apwyntiad cychwynnol gyda'r Swyddog Prawf ac archwiliwyd cymorth ar gyfer llety amgen. Cydnabuwyd bod Marcus wedi bod yn dreisgar tuag at ei fam a bod patrwm o ymddygiad ymosodol gan Marcus tuag at ei rieni.
- 18.68** Cysylltodd James â'r Meddyg Teulu am ei broblemau iechyd ei hun, yn ystod yr ymgynghoriad hwn mae'n adrodd am ei bryder parhaus am iechyd meddwl Marcus, er nad oedd y cofnodion yn eglur o ran beth oedd y pryderon hyn. Dywedodd James nad oedd yn deall pam nad oedd modd i Marcus gael ei anfon i ysbyty meddwl.

Pwynt Dysgu

Rhwystredigaethau teuluoedd, a diffyg gwybodaeth am wasanaethau a systemau iechyd meddwl.

- 18.69** Mis Awst 2019 - Cysylltodd Karen â'r Heddlu yn gofyn am gymorth i symud Marcus o'r eiddo. Dywedodd Karen fod Marcus wedi ymosod arni'r diwrnod cynt a'i bod yn teimlo'n anniogel yn ei chartref pe bai Marcus yn dal yno; nododd Karen ei bod yn credu bod gan Marcus iechyd meddwl gwael ond nad oedd yn fodlon ymgysylltu â'r Meddyg Teulu nac unrhyw wasanaeth arall.
- 18.70** Yn dilyn y digwyddiad hwn, cafodd Marcus ei arestio a'i gadw yn y ddalfa wedi hynny. Yn y gwrandawriad llys, gwrthododd ymgysylltu ag Ymarferydd Cyswllt Iechyd Meddwl y Llys, gan fygwth ei niweidio gan ddweud nad oedd yn ymddiried yn y gweithwyr iechyd meddwl. Dedfrydwyd Marcus i 10 wythnos o garchar a oedd yn cynnwys cyfnod trwydded a goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu drwy'r gwasanaeth prawf.
- 18.71** Nodwyd Marcus fel carcharor sy'n agored i niwed a rhoddwyd trefniadau priodol ar waith tra yn y ddalfa. Ni wnaeth ymgysylltu ag unrhyw asesiadau iechyd meddwl tra yn y carchar. Rhannwyd gwybodaeth gan dîm mewngymorth Nyrsys Seiciatrig Cymunedol y carchar â'r TIMC a'r Meddyg Teulu, yn mynegi pryderon am seicosis a oedd, o bosib, yn dod i'r amlwg, am batrymau gelyniaeth wrth geisio asesu, ac am y gwrthodiad parhaus i ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl.
- 18.72** Trwy gydol y cyfnod hwn mae Marcus yn gwrthod ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol yn y gymuned, yn y ddalfa a gyda'i Feddyg Teulu. Yn ystod y cyfnod hwn, bu ystod o weithwyr proffesiynol mewn cysylltiad â Marcus, yn asesu ei iechyd meddwl, ac ni theimlwyd bod angen asesiad deddf iechyd meddwl, neu ei fod yn peri risg iddo'i hun neu i eraill a oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod angen ymyrraeth ffurfiol o fewn fframwaith deddfwriaethol y ddeddf iechyd meddwl.



Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl/Absenoldeb Cartref/Rhyddhau

- 18.73** Ar 3 Ionawr 2020, cynhaliwyd asesiad deddf iechyd meddwl ar ôl i Karen gysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar 2 Ionawr, gan adrodd bod Marcus yn "cael gwaeledd nerfol". Daeth y criw, ac yn dilyn eu harsylwadau o Marcus, a disgrifiad Karen o'r hyn oedd yn digwydd, gwnaed atgyfeiriad brys gan y Meddyg Teulu er mwyn cynnal asesiad deddf iechyd meddwl. Cynhaliwyd yr asesiad hwn ar 3 Ionawr 2020 ac yna cafodd Marcus ei gadw o dan adran 2 y Ddeddf Iechyd Meddwl; arweiniodd hyn at orchymyn cadw pellach o dan adran 3 y Ddeddf hon ar 29 Ionawr 2020.
- 18.74** Roedd Marcus yn glaf mewnol i ddechrau o dan adran 2, ac yna adran 3, y Ddeddf Iechyd Meddwl o fis Ionawr 2020 tan fis Mai 2020. Dylid nodi bod pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar waith yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn berthnasol mewn perthynas â threfniadau absenoldeb cartref a wnaed yn ystod y cyfnod hwn. Cofnodir bod Tîm Amlddisgyblaethol a theulu Marcus wedi gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag absenoldeb cartref, ac roedd hyn ar ffurf wythnos o wyliau i ddechrau. Roedd y teulu yn parhau i fod yn benderfynol yn eu dealltwriaeth, a'r hyn yr oeddent yn ei gofio, bod hyn yn ymwneud â Marcus yn cael ei ryddhau o'r ysbyty, ac nid cyfnod o absenoldeb cartref.
- 18.75** Cafodd y cyfnod cychwynnol o absenoldeb ei yrru gan brotocolau COVID-19 ar y pryd, gyda'r nod o leihau'r risg o gyflwyno'r feirws COVID-19 i'r ysbyty. Y tu allan i COVID-19, byddai fel arfer yn broses wedi'i graddio, gan ddechrau gyda chyfnodau byrrach o absenoldeb yn gyntaf. O ystyried y cyfyngiadau oedd ar waith, a'r gofynion, cymeradwywyd un wythnos o absenoldeb cartref i gynnwys Cymorth Tîm Argyfwng os oedd angen.
- 18.76** Mae'n ymddangos bod y penderfyniad am absenoldeb cartref i gyfeiriad cartref Karen wedi'i wneud heb fawr o fewnbwn gan asiantaethau eraill. Ni ymgynghorwyd â'r gwasanaeth prawf, ac mae'n ymddangos nad oedd ystyriaeth o'r digwyddiadau cam-drin domestig a ddigwyddodd yn flaenorol, wedi bod yn rhan o'r trafodaethau neu'r asesiadau cynllunio risg. Aeth yr wythnos o absenoldeb cartref yn ei blaen, gyda Marcus yn aros yng nghartref ei fam. Aeth y Tîm Argyfwng i'r eiddo a thrafododd yr opsiynau cymorth tymor hwy ar gyfer Marcus â'r rhieni; gwrthododd Marcus siarad ag unrhyw un o'r tîm.
- 18.77** Mae'n amlwg, yn ystod y cyfnod hwn, bod Karen yn amrywio rhwng bod eisiau Marcus gartref, a'i bod am fynegi ei phryderon ynghylch sut y byddai pethau, a pha gymorth fyddai ar gael. Dywedodd Karen hefyd ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chorneli o gael Marcus gartref, gan mai'r unig opsiynau tai oedd yn cael eu cynnig ar y pryd oedd llety mewn darpariaeth ddigartrefedd. Teimlai Karen ei fod yn annerbyniol ar gyfer Marcus, o ystyried faint o amser yr oedd wedi bod yn yr ysbyty, a'r gefnogaeth y byddai ei hangen arno wrth ei ryddhau.



Pwynt Dysgu

Ymddengys nad oes llawer o wybodaeth am y dull amlasiantaethol o gynllunio absenoldeb cartref a'r broses ryddhau ddilynol. Cydnabyddir bod iechyd meddwl Marcus wedi gwella i'r pwynt lle'r oedd ei Dîm Amlddisgyblaethol o'r farn y gallai gael ei ryddhau o'r Adran. Fodd bynnag, roedd Marcus yn dal i fod yn destun gorchmynion prawf, ac roedd rhai gweithwyr proffesiynol wedi cael ar ddeall bod gorchymyn atal ar waith, yn cyfyngu Marcus rhag mynd i'r cyfeiriad cartref. Nid oedd yr wybodaeth hon yn rhan o'r trafodaethau ynghylch cynllunio absenoldeb cartref. Mae angen trafodaeth gyfannol ar yr holl ffactorau risg a materion cam-drin domestig blaenorol cyn ystyried cynlluniau absenoldeb cartref ar gyfer pob claf mewnol. Dylai pob asiantaeth hysbys fod yn rhan o'r trafodaethau hyn cyn i'r absenoldeb gael ei roi ar waith.

- 18.78** Mae angen lledaenu'r dysgu o'r achos hwn ar draws darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl, i dynnu sylw at bwysigrwydd ymateb amlasiantaethol wrth gytuno ar gynlluniau rhyddhau, lle mae'n hysbys bod asiantaethau eraill yn ymwneud â'r unigolyn dan sylw.
- 18.79** Mae'n ymddangos nad oedd Karen yn teimlo y gallai drafod ei phryderon yn agored, a defnyddiodd sgysiau preifat unigol â gweithwyr proffesiynol i fynegi ei phryderon, efallai bod hyn wedi bod yn rhannol er mwyn peidio â pheri gofid i Marcus. O ystyried mai ei dymuniad pennaf oedd i'w mab fod yn iach, ac iddo ddychwelyd adref, mae'n ddealladwy nad oedd hi bob amser yn mynegi'r pryderon hyn mewn cyfarfodydd neu fforymau ffurfiol yr oedd Marcus hefyd yn bresennol ynddynt.
- 18.80** Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion gan bob asiantaeth yn cyfeirio at sgysiau a thrafodaethau â Karen. Roeddem yn gallu cadarnhau bod James hefyd yn bresennol yn ystod cyfarfodydd yn yr ysbyty, a chyda gweithwyr proffesiynol yng nghyfeiriad cartref Karen. Dylai gweithwyr proffesiynol ym mhob asiantaeth sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn cael eu nodi, wrth gofnodi cyswllt â theuluoedd.

Pwynt Dysgu

Diffyg cofnodi, sy'n nodi bod James yn bresennol yn ystod trafodaethau a chyfarfodydd ag asiantaethau.

- 18.81** Gwrthododd Marcus hefyd ymgysylltu â Headroom tra ar y ward a gartref. Gwnaed nifer o ymdrechion i ennyn diddordeb Marcus tra'n glaf mewnol, ond gwrthododd Marcus siarad â gweithwyr.
- 18.82** Yn ystod rhan gyntaf mis Mai 2020, roedd dryswch ynghylch y gorchymyn atal a oedd wedi bod ar waith yn flaenorol, a'r effaith a gafodd hyn ar sefyllfa dai Marcus pe bai'n cael ei ryddhau o'r ysbyty. Cymerodd beth amser i sefydlu na fyddai'r gwasanaeth prawf yn cefnogi Marcus yn cael ei ryddhau i gyfeiriad cartref ei fam, fodd bynnag, erbyn hyn roedd Marcus eisoes ar absenoldeb cartref gyda'i fam. Mae'n amlwg bod y dryswch wedi arwain at sawl sgwrs lle mai'r unig opsiwn fyddai i Marcus gael ei arestio am dorri amodau, fodd bynnag, roedd rhieni'n



teimlo bod hyn yn annheg ac yn ddiangen. Dychwelodd Marcus i'r ysbyty hyd nes y daethpwyd o hyd i lety priodol.

- 18.83** Ddiwedd mis Mai 2020, cynhaliwyd cyfarfod i drafod trefniadau rhyddhau, roedd Karen a James yn bresennol gan nodi na allai Marcus fyw yn y naill gartref na'r llall. Ym mis Mehefin 2020, cynhaliwyd cyfarfod cyn rhyddhau hefyd, ni wahoddwyd y Swyddog Prawf, adroddwyd bod hwn yn gamgymeriad. Roedd y Swyddog Prawf wedi darparu ei asesiad risg a'r amodau, roedd y rhain yn amlinellu bod Marcus wedi cael ei asesu fel un a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol i'w fam ac na fyddai'n cefnogi bod Marcus yng nghyfeiriad ei fam.

Pwynt Dysgu

Camgymeriad sylweddol nad oedd asiantaethau allweddol, a oedd yn ymwneud â Marcus a'r teulu, yn rhan o gyfarfodydd/trafodaethau allweddol wrth gynllunio absenoldeb cartref a'r broses ryddhau ddilynol.

Rhyddhau o'r Ysbyty

- 18.84** Rhyddhawyd Marcus o Adran 3 ar 4 Mehefin 2020. Mae cofnodion rhyddhau yn nodi bod Marcus, yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl iddo gael ei dderbyn, yn dangos symptomau seicosis gan gynnwys credoau rhithdybiol a'i fod yn amharod i ymgysylltu â staff. Gwnaeth ymddygiad a golwg Marcus wella yn yr wythnosau cyn iddo gael ei ryddhau, a barnwyd nad oedd yn dangos symptomau seicotig. Rhagnodwyd olanzapine a clonazepam i Marcus. Roedd mewnbyn gan Headroom yn rhan o'i gynllun rhyddhau. Cafodd Marcus lety dros dro hyd nes y gellid dod o hyd i lety amgen, gan ei fod wedi ei sefydlu na allai Marcus aros yng nghyfeiriad ei fam.
- 18.85** Roedd gweithiwr allweddol, drwy elfen gymorth y llety dros dro, ar waith ar gyfer Marcus ynghyd â chysylltiad rheolaidd gan Nyrs Seiciatrig Gymunedol o Headroom. Gwrthododd Marcus ymgysylltu'n gyson â Headroom ac ni fyddai'n cyfathrebu mewn unrhyw sgysiau na thrafodaeth am ei iechyd meddwl. Llofnododd Marcus ffurflenni ar gyfer budd-daliadau fel Taliad Annibyniaeth Bersonol, a ffurfiau cysylltiedig eraill, fel Iesu Grist a gwaethygodd hyn ei allu i gael gafael ar fudd-daliadau.
- 18.86** Arhosodd Marcus yn rheolaidd yng nghyfeiriad ei fam dros y misoedd canlynol. Ymgysylltodd Marcus yn arwynebol â'i gymorth iechyd meddwl a gwrthododd drafod ei anghenion iechyd meddwl. Cafwyd trafodaeth rhwng y TIMC a Karen mewn perthynas â meddyginiaeth Marcus a'i gydymffurfiaeth â meddyginiaeth. Cadwodd y Nyrs Seiciatrig Gymunedol o Headroom gysylltiad wythnosol, ond nodwyd bod mewnwelediad Marcus i'w anghenion iechyd meddwl yn parhau'n wael.
- 18.87** Roedd Karen yn argymhell ac yn gofyn am gymorth i Marcus yn rheolaidd, a mynegodd ei phryder bod llety Marcus yn anaddas iddo a bod angen lefel uwch o gymorth arno. Nodwyd mai ychydig o dai oedd ar gael, a bod angen Marcus i



gymryd rhan yn y broses asesu ar gyfer y math hwn o dŷ y gwrthododd ei wneud yn barhaus.

- 18.88** Cyfarfu'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl (Seiciatrydd Ymgynghorol, Nyrs Seiciatrig Gymunedol) â Karen a James wythnos cyn y digwyddiad trasig y mae'r adolygiad hwn wedi cyfeirio ato. Dywedodd Karen fod Marcus yn ei heiddo yn rheolaidd er, yn gyffredinol, nid oedd yn siarad â hi, ond yn gofyn am gael defnyddio pethau, fel y gawod, ac i olchi'i ddillad. Cofnodir bod James a Karen o'r farn na ddylai Marcus fynd yn ôl i'r ysbyty, ond bod angen tŷ arno. Cofnodir nad oedd Marcus yn cymryd ei feddyginiaeth ragnodedig yn rheolaidd. Mae'n ymddangos bod gormod o ddibyniaeth ar Karen i reoli meddyginiaeth Marcus, gyda dealltwriaeth gyfyngedig o effaith diffyg cydymffurfio a beth i'w wneud pe bai'n gwrthod meddyginiaeth/disgyn yn ôl.
- 18.89** Nodwyd yn ystod yr adolygiad hwn nad oedd unrhyw achosion o gam-drin domestig wedi'u cofnodi yn dilyn rhyddhau Marcus o'r ysbyty. Mae'n hysbys bod Marcus wedi treulio cryn dipyn o amser yng nghyfeiriad ei fam. Roedd asiantaethau'n cydnabod bod ymddygiad a golwg Marcus yn parhau i fod yn destun pryder, fodd bynnag, nid oedd cyfeiriad penodol at gynllun ar gyfer Marcus i ddychwelyd i'r ysbyty.
- 18.90** Ers hynny, mae Karen wedi hysbysu'r adolygiad hwn bod digwyddiadau lle'r oedd Marcus wedi ei tharo hi, wedi difrodi eiddo ac, yn gyffredinol, wedi gwneud iddi deimlo'n anniogel ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty. Adlewyrchodd Karen na wnaeth hi adrodd am y digwyddiadau hyn i'r Heddlu, nac i unrhyw un o'r asiantaethau a oedd yn ymwneud â Marcus, oherwydd ei bod yn poeni y byddai'n cael ei droseiddoli.
- 18.91** Mae cofnodion yn dangos bod Karen wedi cael cynnig asesiad gofalwyr gan yr Awdurdod Lleol i gydnabod y gofal a'r cymorth yr oedd yn eu darparu i Marcus. Fodd bynnag, dywedodd Karen nad oedd hi'n gweld ei hun fel gofalwr, a gwrthododd yr asesiad hwn am ei bod ond am sicrhau bod Marcus yn derbyn y cymorth yr oedd ei angen arno.

Pwyntiau Dysgu

Nododd yr adolygiad hwn ddull ymarfer a dealltwriaeth amrywiol o asesiadau risg ar draws asiantaethau. Mae dealltwriaeth amrywiol o ba risg sy'n cael ei asesu, ffocws y risg h.y., yr unigolyn, y teulu, y gymuned ehangach; beth mae canlyniad yr asesiad risg yn ei olygu, a pha gamau gweithredu a gymerir o ganlyniad.

Gorddibyniaeth ar aelodau'r teulu i gefnogi cydymffurfiaeth ac ymgysylltu â meddyginiaeth ragnodedig.

Roedd rhwystrau amlwg i Marcus gael gafael ar fudd-daliadau a symud ymlaen i lety oherwydd ei ddiffyg mewnwelediad, a'r ffaith ei fod yn gwrthod ymgysylltu â gweithiwr cymorth a Nyrs Seiciatrig Gymunedol.



Dysgu Sefydliadol Unigol

Y Gwasanaeth Prawf

- 19.1** Pan fo unigolyn yn cael ei euogfarnu o drosedd mynegai cam-drin domestig a'i asesu fel risg uchel, dylid rhoi ystyriaeth ar gyfer ei atgyfeirio i TADC. Nid oedd y broses hon ar waith ar adeg yr achos hwn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF)

- 19.2** Mae'r cymorth a'r hyfforddiant canlynol ar gael i staff yn BIP Caerdydd a'r Fro. Mae hyfforddiant VAWDASV Grŵp 2 ar gael ar gyfer yr holl staff sydd â chysylltiad wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaeth - mae hyn oddeutu 11,000 o staff. Mae Cyngorydd Iechyd Annibynnol ar Drais Domestig yn ei le, sy'n ymweld â chleifion yn Hafan y Coed (HYC) ac sydd hefyd yn cynnig cyngor i staff ar drais domestig a hyfforddiant. Mae hyfforddiant/ymwybyddiaeth TADC ar gael i staff ym maes Iechyd Meddwl. Mae TADC yn cael eu cofnodi ar Paris, er mwyn i staff fod yn ymwybodol bod claf wedi ei drafod, ac y gellir cysylltu â'r tîm am ragor o ddiweddariadau. Mae prosesau a diweddariadau TADC hefyd yn cael eu rhannu yn y Grŵp Llywio Diogelu. Mae'r Tîm Diogelu ar gael i holl staff y BIP i gael cyngor ar bryderon diogelu.
- 19.3** Mae'r teulu o'r farn bod y catalydd ar gyfer iechyd meddwl Marcus o ganlyniad i ymosodiad cyllyll arno. Arweiniodd yr ymosodiad hwnnw at anafiadau sylweddol i'w droed, gan ei gwneud hi'n amhosib iddo gymryd rhan mewn chwaraeon, a'r dirywiad yn ei iechyd meddwl. Bryd hynny, ar gyfer digwyddiadau o'r math hwn, nid oedd unrhyw gymorth ar waith naill ai yn yr ysbyty nac yn y gymuned. Cydnabuwyd pe bai Marcus wedi derbyn cymorth yn dilyn yr ymosodiad, y gallai fod wedi atal dirywiad iechyd Marcus.
- 19.4** Ers y cyfnod hwn mae Uned Atal Trais ar waith yn yr Adran Achosion Brys yn yr ysbyty, a byddai unrhyw berson sy'n destun digwyddiad tebyg bellach yn cael cynnig cymorth fel dioddefwr ymosodiad a chymorth am fod yn rhan o gang.
- 19.5** Byddai Marcus wedi cael ei weld a byddai cymorth un i un wedi'i gynnig iddo yn y gymuned trwy Gweithredu Dros Blant, fel dioddefwr ymosodiad. Byddai'r gwasanaeth wedi darparu cymorth dwys i Marcus. Byddai'r gwasanaeth yn gallu cyfeirio a chynorthwyo gydag unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl neu gyffuriau a brofodd Marcus yn dilyn y digwyddiad, a chymorth i fynychu gwasanaethau ac annog ymgysylltu yn y gymuned. Dim ond trwy atgyfeiriad gan bresenoldeb yn yr Adran Achosion Brys trwy'r Uned Atal Trais y gellir cael mynediad at yr atgyfeiriad i Gweithredu dros Blant.

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (YGAC)

- 19.6** Iechyd Meddwl - Mae gan YGAC Dîm Iechyd Meddwl pwrpasol sydd wedi datblygu cynllun Iechyd Meddwl a Dementia 2021-2024, sydd wedi nodi'r amcanion allweddol canlynol. Mae'r rhain fel a ganlyn:
- Mae hyfforddiant Iechyd Meddwl priodol ar waith i arfogi staff i deimlo'n hyderus ac yn gymwys wrth gefnogi cleifion â phryderon iechyd meddwl.



- Datblygu llwybrau a gweithio gydag asiantaethau allanol i ddarparu cefnogaeth barhaus i'n cleifion sy'n profi problemau iechyd meddwl. Mae hyn yn amlwg yn y gwasanaeth gwasgu 2 111 GIG sydd newydd ei sefydlu, sy'n defnyddio plattform (111 GIG) Gwasanaeth Cymru gyfan i alluogi cleifion/defnyddwyr gwasanaethau i gael mynediad at gymorth Iechyd Meddwl yn ardal eu Bwrdd Iechyd Lleol. Sicrhau bod cleifion yn cael gafael ar y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, a phan fydd ei angen arnynt fwyaf.
- Ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau, dysgu o'u profiadau.
- Cefnogi lles staff a sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar waith i staff gael mynediad atynt.

19.7 Cofnodion Clinigol Cleifion electronig TerraPACE - Roedd pandemig COVID-19 yn cynnig cyfle i wella'r cyfleoedd digidol oedd ar gael i staff, wrth i'r holl staff a oedd yn gweithio yn y Gwasanaeth Meddygol Brys a'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys, gael iPads. Galluogodd hyn i'r Ymddiriedolaeth symud i ffwrdd o gofnodion clinigol cleifion papur i gofnodion clinigol cleifion electronig, trwy gymhwysiad TerraPACE. Mae'r cofnodion clinigol cleifion electronig yn ffurflen ddigidol y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn ei defnyddio ledled Cymru ers mis Mawrth 2022. Mae hefyd yn ddogfen gyfoes sy'n rhoi cyfrif darllenadwy a chywir o'r holl asesiadau a thriniaethau a gymerwyd yn y fan a'r lle. Swyddogaeth arall TerraPACE yw'r swyddogaeth 'Cofnodion Hanesyddol'. Mae hyn yn galluogi staff i chwilio'r gronfa ddata ar gyfer cofnodion clinigol cleifion electronig sydd wedi'u storio, a gweld rhestr o gofnodion clinigol cleifion electronig hanesyddol cyfatebol ar gyfer y claf y maent yn ei asesu ar y pryd. Mae'r swyddogaeth hon yn arbennig o ddefnyddiol wrth reoli cleifion â phryderon iechyd meddwl gan ei fod yn rhoi darlun o nifer y cysylltiadau, y rheswm dros y cyswllt a rheolaeth flaenorol. Felly, rhoi trosolwg llawer ehangach i'r staff o'r claf a'i gynllun rheoli a nodi cynnydd mewn ymddygiad a ffactorau risg, fel y gellir cymryd y camau priodol.

Headroom – Gwasanaeth Ymateb i Seicosis

19.8 Mae gwasanaethau iechyd meddwl BIP Caerdydd a'r Fro wedi newid y dull asesu risg i'r Rhwydwaith Ymchwil Risg Cymhwysol Cymru, techneg amlddisgyblaethol sy'n seiliedig ar lunio ar gyfer asesu a rheoli risg ddifrifol. Ar gyfer cleifion a atgyfeiriwyd at wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys Headroom, hwn fyddai'r offeryn asesu a rheoli risg safonol.

Heddlu De Cymru

19.9 O ganlyniad i hyn ac achosion eraill, mae Heddlu De Cymru wedi gweithredu llwybr o lwyfan byw ar-lein newydd ar gyfer Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

Mae'r llwyfan ar-lein [MANTA ar gyfer CAAR](#) wedi codi CAARau i mewn i system Ddiogelu ddeinamig fyw, sy'n rhannu gwybodaeth ar draws yr holl bartneriaid ar



yr un pryd, gan hefyd roi cyfrifoldeb rheoli gweithredol cyfartal ac uniongyrchol ar bob asiantaeth bartner.

Mae'r system amser byw hon yn gallu dileu'r baich gweinyddol a'r gofynion maint gan un asiantaeth, ac yn ei osod yn gyfartal ar draws pob partner o'r dechrau.

O ganlyniad, mae'r broses amser gyflym hon yn darparu tryloywder llwyr i bob asiantaeth ar lefelau atebolrwydd cyfartal, ac mae'n cyflymu ymgysylltiad i fynd ati i ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli risg amlasiantaethol.

Unwaith y bydd yr asiantaeth wedi cyflwyno ei hatgyfeiriad i'r platfform CAAR ar-lein, mae'n rhoi cydnabyddiaeth i bob asiantaeth bod atgyfeiriad newydd wedi'i dderbyn, a chaiff ei rannu'n syth ar draws holl bartneriaid y CAAR.

Mae asiantaethau heblaw'r Heddlu bellach hefyd wedi ymgymryd â rôl Cadeirio'r CAARau ar sail rota, sydd bellach yn darparu lefel dryloyw a rennir o atebolrwydd a chyfrifoldeb ar y radd uwch reolwr briodol.

Gwella Systemau ac Ymarfer (Yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol):

Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol a'r canlyniadau gwella disgwylidig:-

Cam-drin Domestig

Pwyntiau Dysgu

- Nododd yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Karen y rhwystrau sy'n wynebu dioddefwyr cam-drin domestig wrth ganiatáu iddynt drafod achosion o gam-drin, yn enwedig o fewn perthynas deuluol, a'r angen i Weithwyr Proffesiynol fod yn rhagweithiol wrth geisio trafod cam-drin domestig wrth ymgysylltu ag unigolion.
- Cyfrifoldeb Gweithwyr Proffesiynol ar ôl cwblhau a chyflwyno atgyfeiriadau y CAAR, o ran gwirio derbyn atgyfeiriad a chyfrifoldeb am reoli risg nes bod atgyfeiriad y CAAR yn cael sylw.
- Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, rhannwyd gwybodaeth am sut roedd prosesau a thrafodaeth y CAAR am ddigwyddiadau cam-drin domestig mewn fforwm amlasiantaethol wedi newid ers yr achos hwn. Dywedodd ymarferwyr fod ffocws bellach ar gynnal trafodaethau dyddiol i sicrhau yr ymatebwyd yn brydlon i risgiau a nodwyd a bod yr achosion hynny a aseswyd yn uchel wedyn yn cael eu symud ymlaen i'r CAAR.
- Gwnaeth ymarferwyr yn y Digwyddiad Dysgu fynegi pryderon, yn eu barn nhw, bod gwrthdaro buddiannau yn y ffaith bod Cadeirydd y cyfarfodydd trafod dyddiol a'r CAAR yr un peth ar gyfer y ddwy broses. Nododd ymarferwyr hefyd eu bod yn teimlo y dylai Cadeirydd y CAAR fod yn berson yr oedd ei rôl yn Uwch o fewn eu Sefydliad i oruchwylio'r trafodaethau ynghylch rheoli risg a dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â'r risg honno.



- Dywedodd Karen wrth y Cadeirydd a'r Adolygwyr Annibynnol fod y cam-drin corfforol gan Marcus wedi parhau ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar ac yn yr ysbyty. Er y nodwyd bod gweithwyr proffesiynol yn rhyngweithio â Karen am gyfnodau hir ynghylch darparu cymorth, nid oedd tystiolaeth bod Karen wedi cael ei holi'n uniongyrchol a oedd y cam-drin yn parhau, a heb y ffocws hwn, nid oedd ystyriaethau Gofyn a Gweithredu'n amlwg.

Argymhellion

1. Asiantaethau i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu dioddefwyr wrth drafod achosion o gam-drin domestig teuluol a'r angen i Weithwyr Proffesiynol drafod cam-drin domestig yn agored yn ystod cyswllt ag unigolion.
2. Rhaid i asiantaethau ddysgu o'r achos hwn ynghylch y gofynion ar Weithwyr Proffesiynol sy'n cyfeirio achosion at CAAR ar geisio sicrwydd bod yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn a'u cyfrifoldeb wrth reoli'r risg.
3. Mae angen i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghaerdydd a'r Fro geisio sicrwydd bod y Trafodaethau Dyddiol Amlasiantaethol ynghylch digwyddiadau o Gam-drin Domestig sydd wedi'u rhoi ar waith yn addas at y diben ac yn ddigon cadarn i nodi'r risgiau i ddiodeswyr ac ymateb iddynt mewn modd amserol. Yn ogystal, â lle nodir bod y risg yn uchel, mae'r achos yn cael ei symud ymlaen i CAAR.
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o brosesau TADC a CAAR ar draws asiantaethau. Amlygu llwybrau atgyfeirio; cymhwysedd a meini prawf ar gyfer atgyfeirio; diben a dulliau rheoli risg y prosesau hyn.

Gorchmynion Atal

Pwyntiau Dysgu

- Gwybodaeth am brosesau sy'n ymwneud â gwneud ceisiadau, hysbysiadau a disgwyliadau ar bartion â diddordeb wrth ymateb i geisiadau am amrywio a/neu ryddhau Gorchmynion Atal.
- Argaeledd cefnogaeth yn ystod y broses gwneud ceisiadau a gwrandawiadau llys.
- Cyfrifoldeb Gweithwyr Proffesiynol wrth geisio dilysu bodolaeth Gorchmynion Sifil wrth asesu a rheoli risg.

Argymhellion

5. Hyb Cydlynu'r ADUS i hysbysu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru o'r dysgu a nodwyd yn yr adroddiad hwn a cheisio ystyried adolygu'r broses ar gyfer ymateb i geisiadau am amrywio a/neu ryddhau Gorchmynion Atal. Dylai'r adolygiad ystyried –
 - sut mae hysbysiadau yn cael eu gwneud i bartion â diddordeb,
 - disgwyliadau'r partion hynny sydd â diddordeb,
 - y gefnogaeth yn ystod y broses i ddiodeswyr cam-drin domestig, a



- chyfathrebu a disgwyliadau partïon â diddordeb yn dilyn canlyniad y gwrandawriad llys.

6. Hysbysu asiantaethau o'r amgylchiadau a'r prosesau y gellir gwneud cais i'r Llys am amrywio a/neu ryddhau Gorchymyn Atal. Dylid cynnwys sut y gall partïon â diddordeb wneud sylwadau i'r Llys yn ystod y broses ymgeisio.
7. Disgwyliadau ar Weithwyr Proffesiynol i gadarnhau dilysrwydd Gorchymynion Sifil neu gyfarwyddiadau cyfreithiol eraill a weithredwyd i amddiffyn dioddefwyr a rheoli risg, cyn adolygu a gweithredu prosesau rheoli risg.

Ymateb i leihau'r risg o drosedd

Pwyntiau Dysgu

- Opsiynau ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd yn ymwneud â cham-drin domestig teuluol i gymryd rhan mewn rhaglenni rheoli troseddwr penodol.
- Mae'r gwasanaeth prawf wedi rhoi newidiadau ar waith i gyflawnwyr cam-drin domestig, a aseswyd fel risg uchel o niwed difrifol, sef y dylid eu hystyried ar gyfer Lefel 2 TADC.

Argymhelliad

8. Hyb Cydlynu'r ADUS i hysbysu'r Gwasanaeth Prawf o'r dysgu a nodwyd yn yr adroddiad hwn, a cheisio ystyried adolygu argaeledd ymyriadau i'r rheini a gafwyd yn euog o gam-drin domestig teuluol ac sy'n destun goruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf.
9. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd i geisio sicrwydd a thystiolaeth gan y Gwasanaeth Prawf bod y newid hwn yn cael ei weithredu.
10. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd i godi ymwybyddiaeth gydag asiantaethau o'u gwasanaethau a gomisiynir sy'n gweithio gydag unigolion a theuluoedd i leihau trais, cam-fanteisio a mathau eraill o gam-drin.

Cofnodi

Pwynt Dysgu

- Diffyg cofnodi, sy'n nodi bod James yn bresennol yn ystod trafodaethau a chyfarfodydd ag asiantaethau. Nododd yr adolygiad hwn absenoldeb o hyn mewn cofnodion asiantaethau.

Argymhelliad

11. Asiantaethau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol ac ynghlwm wrth drafodaethau yn cael eu cofnodi'n gywir.



Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl

Pwynt Dysgu

- Gwnaeth Marcus hunan-adrodd ynghylch ei ddefnydd dyddiol o ganabis. Nid oes llawer o ffocws ar sut mae'r lefel hon o ddefnydd canabis yn effeithio naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol ar iechyd meddwl Marcus, a/neu symptomau seicosis.

Argymhellion

12. Dylai ymarferwyr sy'n ymwneud ag asesu, cynllunio rheoli risg a darparu gwasanaethau cymorth, fod yn effro i ddefnydd unigolion o sylweddau ac ystyried unrhyw gydberthynas â problemau iechyd meddwl sy'n cael eu cyflwyno, yn enwedig gan ystyried credoau diwylliannol a chrefyddol.
13. Bwrdd Cynllunio Ardal a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adolygu'r ddarpariaeth a'r cymorth presennol ar gyfer unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl a defnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Gweithio gydag asiantaethau i weithredu gwelliannau a nodwyd/gofynnol.

Pwyntiau Dysgu

- Tystiolaeth glir nad yw Marcus yn cydnabod bod ganddo unrhyw broblemau/anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Nid oedd Marcus yn bresennol yn unrhyw un o'r apwyntiadau oedd yn cael eu cynnig gan y Meddyg Teulu na'r TIMC. Problemau gyda chydbwysu'r radd hon o ddirywiad/cyflwyniad iechyd meddwl (lefel is nag ymyrraeth Deddf Iechyd Meddwl) â'r risgiau a'r pryderon sy'n cael eu mynegi gan y rheini sydd agosaf ato.
- Rhwystredigaethau teuluoedd, a diffyg gwybodaeth am wasanaethau a systemau iechyd meddwl.
- Roedd rhwystrau amlwg i Marcus gael gafael ar fudd-daliadau a symud ymlaen i lety oherwydd ei ddiffyg mewnwelediad, a'r ffaith ei fod yn gwrthod ymgysylltu â gweithiwr cymorth a Nyrs Seiciatrig Gymunedol.

Argymhelliad

14. Dylai gwasanaethau iechyd ddatblygu gwybodaeth y gellir ei darparu i deuluoedd a rhieni o ran argaeledd cymorth i unigolion sy'n profi problemau iechyd meddwl ar
 - y broses asesu;
 - pryd y gellir ymyrryd;
 - deall y fframwaith cyfreithiol;
 - hawliau unigolion a
 - chyfreithlondeb rhannu gwybodaeth a chydsynio.



Pwyntiau Dysgu

- Ymddengys nad oes llawer o wybodaeth am y dull amlasiantaethol o gynllunio absenoldeb cartref a'r broses ryddhau ddilynol. Cydnabyddir bod iechyd meddwl Marcus wedi gwella i'r pwynt lle'r oedd ei Dîm Amlddisgyblaethol o'r farn y gallai gael ei ryddhau o'r Adran. Fodd bynnag, roedd Marcus yn dal i fod yn destun gorchmynion prawf, ac roedd rhai gweithwyr proffesiynol wedi cael ar ddeall bod gorchymyn atal ar waith, yn cyfyngu Marcus rhag mynd i'r cyfeiriad cartref. Nid oedd yr wybodaeth hon yn rhan o'r trafodaethau ynghylch cynllunio absenoldeb cartref.
- Gorddibyniaeth ar aelodau'r teulu i gefnogi cydymffurfiaeth ac ymgysylltu â meddyginiaeth ragnodedig.

Argymhellion

15. Mae angen trafodaeth gyfannol ar yr holl ffactorau risg a materion cam-drin domestig blaenorol cyn ystyried cynlluniau absenoldeb cartref ar gyfer pob claf mewnol. Dylai pob asiantaeth hysbys fod yn rhan o'r trafodaethau hyn cyn i'r absenoldeb gael ei roi ar waith.
16. Gwasanaethau iechyd i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ar adeg absenoldeb cartref/rhyddhau i'r perthynas agosaf/teuluoedd am amgylchiadau'r absenoldeb/rhyddhau a threfniadau i roi cymorth ar yr adeg honno.

Pwynt Dysgu

- Roedd yn amlwg nad oedd Marcus yn bresennol mewn apwyntiadau dilynol gyda'r Meddyg Teulu a/neu Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol yn y ddwy flynedd cyn iddo gael ei gadw yn yr ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Y dull a ddefnyddiwyd i ymgysylltu Marcus oedd cynnig apwyntiadau dilynol neu roi cyngor i'r teulu gysylltu â Meddyg Teulu os oeddent yn bryderus. Fodd bynnag, roedd yn amlwg na fyddai Marcus yn ymgysylltu â gwasanaethau fel hyn, ac roedd hyn yn rhwystr amlwg i Marcus a'r teulu. Nid oedd cyfle i ddatblygu dealltwriaeth broffesiynol o anghenion iechyd meddwl Marcus yn y gymuned, o safbwynt cyfannol, a dim cyfle i feithrin unrhyw berthynas na lefel dealltwriaeth o gyflwyniad ac anghenion unigol Marcus.

Argymhelliad

17. Dylai Gwasanaethau Iechyd sy'n ymwneud â darparu cymorth iechyd meddwl fabwysiadu dull atblygol o ran apwyntiadau dilynol. Dylid ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r rheini yn y gymuned na fyddant yn bresennol mewn apwyntiadau. Dylent:

- Greu cyfleoedd i ddeall sut mae unigolion yn cyflwyno o safbwynt y rheini sydd agosaf at yr unigolion, yn yr achos hwn roedd aelodau'r teulu yn mynegi eu pryderon yn gyson.
- Bod yn hyblyg yn eu dulliau o ymgysylltu â'r rheini nad ydynt yn fodlon ymgysylltu.
- Archwilio dewisiadau amgen i apwyntiadau wyneb yn wyneb



Lledaenu'r Gair

Rhestr o dderbynwyr a fydd yn derbyn copiâu o'r Adroddiad Adolygu (yn unol â chanllawiau ac oherwydd argymhellion yr Adroddiad hwn): Dylech gopïo a gludo'r nifer briodol o ddigwyddiadau.

Dyddiad yr anfonwyd i arweinwyr polisi perthnasol: Cliciwch neu tapiwch yma i roi dyddiad.

Sefydliad	Do	Naddo	Rheswm
Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.

Proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Ceir tystiolaeth drwy gydol yr adroddiad;

- Bod Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd wedi dilyn canllawiau'r ADUS ar gyfer yr adolygiad. Cofnodir yr asiantaethau a gynrychiolir ar y panel adolygu yn yr adroddiad hwn.
- Cynhaliwyd dau ddigwyddiad dysgu, un gydag ymarferwyr a'r llall gyda rheolwyr. Roedd cynrychiolaeth dda o asiantaethau yn y ddau ddigwyddiad, ac roedd mynychwyr wedi cyfrannu'n dda at nodi dysgu.
- Rhoddwyd gwybod i aelodau'r teulu am yr adolygiad, ac maent wedi cymryd rhan drwy gydol y broses. Ceisiwyd eu barn a chawsant eu cynrychioli yn y digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt. Roedd y teulu'n bresennol mewn cyfarfod panel lle roeddent yn gallu derbyn atebion i gwestiynau a ofynnwyd ganddynt i aelodau'r panel ynghylch rhyngweithio ag aelodau eu teulu. Maent hefyd wedi cael cyfle i archwilio a rhoi sylwadau ar yr adroddiad.



Gwiriad hyder terfynol

Gwiriwyd yr Adroddiad hwn i sicrhau bod proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wedi'i dilyn yn gywir a'r Adroddiad wedi'i gwblhau fel y nodir yn y canllawiau statudol.

Gallaf gadarnhau bod yr adran Adroddiad hon ar safon sy'n barod i'w chyhoeddi

A yw'r Adroddiad hwn yn cynnwys agweddau sy'n bodloni'r gofynion canlynol o gwblhau Adolygiad Dynladdiad Domestig?

Mae marwolaeth person 16 oed neu'n hŷn wedi, neu'n ymddangos ei fod wedi, deillio o drais, cam-drin, neu esgeulustod gan—

- a) *berson yr oedd yn perthyn iddo, neu'r oedd ar y pryd neu'r oedd wedi bod mewn perthynas bersonol agos â ef, neu*
- b) *yn aelod o'r un aelwyd ag ef ei hun*

Os mai 'ydy' yw'r ateb, ar ôl i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, ei gwblhau a'i gadarnhau, mae angen anfon Adroddiad yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl at Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref.

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad y cafwyd yr wybodaeth: Cliciwch neu tapiwch yma i roi dyddiad.

Dyddiad yr anfonwyd y llythyr cydnabod i Gadeirydd y Bwrdd: Cliciwch neu tapiwch yma i roi dyddiad.

Dyddiad yr anfonwyd i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol: Cliciwch neu tapiwch yma i roi dyddiad.

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
AGIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Fawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.



Datganiadau o Annibyniaeth

Datganiad o Annibyniaeth gan Adolygydd(Adolygwyr):

Darllenwch a llofnodwch y datganiad canlynol. Ystyriwch yr adran ar annibyniaeth yng Nghanllawiau Statudol yr ADUS cyn ei chwblhau. [Adolygiad Diogelu Unedig Sengl \(ADUS\): canllawiau statudol drafft | LLYW.CYMRU](#)

Adolygydd 1: Carol Ellwood-Clarke

Datganiad o annibyniaeth o'r achos

Gwiriad terfynol y datganiad cymhwyster

Rwy'n gwneud y datganiad canlynol i nodi, cyn i mi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos, nac unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth o'r achos.
- Mae'r cymwysterau cydnabyddedig priodol gennyf, yr wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. Felly, rwyf wedi cwrdd â meini prawf Cadeirydd/Adolygydd Cymeradwy.
- Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn fanwl ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi'r hyn a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai ar ymarferwyr neu asiantaethau.
- Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn unol â hynny.

Lle mae Dynladdiad Domestig wedi digwydd, nodwch isod sut rydych chi'n cwrdd ag Adran 4, paragraff 37 o'r [Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer Cynnal Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig](#)

Canllawiau: Esboniwch annibyniaeth yr Adolygydd a rhowch fanylion am hanes ei yrfa a'i brofiad perthnasol. Dylech gadarnhau nad oes gan yr Adolygydd unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Os yw wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn flaenorol, nodwch pa mor bell yn ôl y daeth y gyflogaeth honno i ben:

Penodwyd Carol Ellwood-Clarke yn un o'r Adolygwyr Annibynnol. Mae hi'n ymarferydd annibynnol sydd wedi cadeirio ac ysgrifennu Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig blaenorol, ynghyd ag adolygiadau diogelu eraill. Ymddeolodd Carol o Heddlu Humberside yn 2017, ar ôl deng mlynedd ar hugain o wasanaeth. Cyn iddi adael yr Heddlu, cafodd brofiad o ysgrifennu Adolygiadau Rheoli Annibynnol, yn ogystal â bod yn aelod panel ar gyfer Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig, Adolygiadau o Achosion Difrifol yn ymwneud â Phlant, ac Adolygiadau Diogelu Oedolion gan weithio gyda Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion.

Ym mis Ionawr 2017, dyfarnwyd Medal Heddlu'r Frenhines i Carol am ei gwasanaethau plismona i Ddiogelu, a Chyswllt â Theuluoedd.

Ar ôl ymddeol, gweithiodd Carol am ddwy flynedd ar brosiect a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref i sefydlu ymateb amlasiantaethol i gyflawnwyr cam-drin domestig.

Mae Carol yn Hyfforddwr Cyswllt ar gyfer SafeLives sy'n cyflwyno hyfforddiant i'r Heddlu ar gam-drin domestig.



Mae Carol wedi bod yn Adolygydd Annibynnol ers 2018 ac mae ganddi brofiad o gynnal y mathau canlynol o adolygiadau – Adolygiad Ymarfer Diogelu Plant Lleol, Adolygiadau Diogelu Oedolion; Adolygiadau o achosion difrifol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (TADC); Adolygiadau o Ddyladdiadau Domestig; ac mae wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein y Swyddfa Gartref ar gyfer ymgymryd ag ADDau. Mae Carol hefyd wedi cwblhau hyfforddiant achrededig ar gyfer Cadeiryddion ADDau, a ddarperir gan AAFDA.

Mae Carol eisoes wedi cwblhau dau Adolygiad Dynladdiad Domestig ar gyfer Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd (ADD 08 a 09).

Llofnod:



Enw: Carol Ellwood-Clarke

Dyddiad: 21/03/2024

Adolygydd 2: Natasha James

Datganiad o annibyniaeth o'r achos

Gwiriad terfynol y datganiad cymhwyster

Rwy'n gwneud y datganiad canlynol i nodi, cyn i mi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos, nac unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth o'r achos.
- Mae'r cymwysterau cydnabyddedig priodol gennyf, yr wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. Felly, rwyf wedi cwrdd â meini prawf Cadeirydd/Adolygydd Cymeradwy.
- Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn fanwl ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi'r hyn a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai ar ymarferwyr neu asiantaethau.
- Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn unol â hynny.

Lle mae Dynladdiad Domestig wedi digwydd, nodwch isod sut rydych chi'n cwrdd ag Adran 4, paragraff 37 o'r [Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer Cynnal Adolygiadau o Ddyladdiadau Domestig](#)

Canllawiau: Esboniwch annibyniaeth yr Adolygydd a rhowch fanylion am hanes ei yrfa a'i brofiad perthnasol. Dylech gadarnhau nad oes gan yr Adolygydd unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Os yw wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn flaenorol, nodwch pa mor bell yn ôl y daeth y gyflogaeth honno i ben:

Penodwyd Natasha James yn un o'r Adolygwyr Annibynnol. Mae hi'n rheolwr diogelu awdurdod lleol. Mae Natasha yn weithiwr cymdeithasol cymwys gyda thros 20 mlynedd o brofiad mewn diogelu a diogelu plant/oedolion. Mae hi wedi bod yn rhan o nifer o adolygiadau diogelu fel cadeirydd, adolygydd ac aelod o'r panel. Roedd Natasha yn rhan o'r tîm a ddatblygodd Weithdrefnau Diogelu Cymru yn 2019 ac mae'n parhau i gefnogi datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddiogelu arfer ledled Cymru.



Llofnod:

Enw: Natasha James

Dyddiad: 21/03/2024

Datganiad o Annibyniaeth gan Gadeirydd y Panel Adolygu: Sue Hurley

Darllenwch a llofnodwch y datganiad isod. Ystyriwch yr adran ar annibyniaeth yng Nghanllawiau Statudol yr ADUS cyn ei chwblhau. [Adolygiad Diogelu Unedig Sengl \(ADUS\): canllawiau statudol drafft | LLYW.CYMRU](#)

Gwiriad terfynol y datganiad cymhwyster

Rwy'n gwneud y datganiad canlynol i nodi, cyn i mi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos, nac unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth o'r achos.
- Mae'r cymwysterau cydnabyddedig priodol gennyf, yr wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. Felly, rwyf wedi cwrdd â meini prawf Cadeirydd/Adolygydd Cymeradwy.
- Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn fanwl ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi'r hyn a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai ar ymarferwyr neu asiantaethau.
- Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn unol â hynny.

Lle mae Dynladdiad Domestig wedi digwydd, nodwch isod sut rydych chi'n cwrdd ag Adran 4, paragraff 37 o'r [Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer Cynnal Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig](#)

Canllawiau: Esboniwrch annibyniaeth Cadeirydd y Panel Adolygu a rhowch fanylion am hanes ei yrfa a'i brofiad perthnasol. Dylech gadarnhau nad oes gan Gadeirydd y Panel Adolygu unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Os yw wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn flaenorol, nodwch pa mor bell yn ôl y daeth y gyflogaeth honno i ben:

Cyflogwyd y Cadeirydd gan Heddlu De Cymru, cyn ymddeol ym mis Hydref 2014, yn dilyn 30 mlynedd o wasanaeth plismona. Ei rôl adeg ymddeol oedd Ditectif Brif Arolygydd ar Dîm Strategol Diogelu'r Cyhoedd, heb unrhyw gysylltiad ag unrhyw Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Yn ystod ei gyrfa blismona 30 mlynedd, nid oedd ganddi unrhyw gysylltiad â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol Caerdydd a'r Fro, gan nad oedd hi erioed wedi gweithio yn y maes hwnnw o'r Heddlu.

Ym mis Rhagfyr 2014, cymerodd y Cadeirydd rôl Rheolwr Annibynnol Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed gyda Heddlu De Cymru. Roedd y swydd hon hefyd o fewn tîm Strategol Diogelu'r Cyhoedd, heb unrhyw gyfrifoldebau gweithredol. Ei rôl oedd bod yn Aelod Panel Heddlu De Cymru mewn Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant yn ogystal ag Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig. Mae'r Cadeirydd wedi ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Llywodraeth Cymru yn ogystal ag Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref.

Mae gan y Cadeirydd brofiad o gadeirio ac adolygu Adolygiadau Ymarfer Plant ac Ymarfer Oedolion, a bu yn y swydd am 9 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn aelod o'r panel ar nifer o adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig yn ardal Caerdydd a'r Fro a gomisiynwyd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol Caerdydd a'r Fro.



Yn ystod y 4 blynedd diwethaf o wasanaeth, Rhondda Cynon Taf a Merthyr oedd ei hardal cyfrifoldeb yn ogystal â Bae Abertawe.

Fel rhan o'i rôl a'i chyfrifoldebau, roedd y Cadeirydd yn rhan o'r gweithgorau a sefydlwyd ar gyfer prosiect yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, gan ymgymryd â gwahanol ddarnau o waith. Roedd y gwaith hwn yn parhau ar adeg ei hymddeoliad; fodd bynnag, mae ei hymgysylltiad â'r prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl wedi gwella gwybodaeth yn y maes hwn.

Ymdeolodd y Cadeirydd o Heddlu De Cymru ym mis Mawrth 2023 a phenderfynodd ddefnyddio'r profiad helaeth a ennillodd a dod yn Gadeirydd/Adolygydd Annibynnol hunangyflogedig.

Roedd Cadeiryddion Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn fodlon ar annibyniaeth y Cadeirydd, o ystyried ei rolau a'i chyfrifoldebau blaenorol ac y byddai ei harbenigedd o fewn yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn gaffaeliad i'r broses adolygu.

Llofnod:

Enw: Sue Hurley

Dyddiad: 21/03/2024



ATODIAD 1

Aelodau'r Panel Adolygu

Nifer o weithiau y cyfarfu'r Panel: 13

Rôl a theitl y swydd	Asiantaeth	Cadarnhau Annibyniaeth
Rheolwr Gweithredol, Diogelwch Cymunedol	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Caerdydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Uwch Swyddog Prawf	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	<input checked="" type="checkbox"/>
Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	<input checked="" type="checkbox"/>
Ymgynghorydd Nyrsio Diogelu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	<input checked="" type="checkbox"/>
Nyrs Ymgynghorol, Headroom	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	<input checked="" type="checkbox"/>
Rheolwr Diogelu Annibynnol ar gyfer Pobl Agored i Niwed	Heddlu De Cymru	<input checked="" type="checkbox"/>
Uwch Arbenigwr Diogelu	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	<input checked="" type="checkbox"/>
Rheolwr Gweithredol, Iechyd Meddwl	Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Caerdydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Canolog	Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Rheolwr Llety a Chymorth	Gwasanaethau Tai, Cyngor Caerdydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Rheolwr Project Gwella, Gwasanaethau Rhyw Benodol	Gwasanaethau Tai, Cyngor Caerdydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Cydlynnydd Cam-drin Domestig	Gwasanaethau Tai, Cyngor Caerdydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Rheolwr Gwasanaeth	RISE Caerdydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Arweinydd Dioddefwyr Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru	Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru	<input checked="" type="checkbox"/>

ATODIAD 2

Mynychwyr y Digwyddiad Dysgu

Digwyddiad Dysgu'r Ymarferwyr/Rheolwyr

Asiantaeth
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Caerdydd
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Caerdydd
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Abertawe
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd
Heddlu De Cymru
Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA), Cymorth Tai Caerdydd
Byddin yr Iachawdwriaeth
Llamau
Linc Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru



ATODIAD 3

Cylch Gorchwyl

Tasgau craidd

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a'r Bwrdd a enwir.
- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a gwasanaethau ar gyfer yr unigolyn a'i deulu.
- Asesu i ba raddau roedd penderfyniadau a chamau gweithredu'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Gwahodd cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am gynnydd.
- Ystyried unrhyw archwiliadau, adolygiadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau angenrheidiol i ganfod pa wersi sydd i'w dysgu o'r digwyddiad.
- Nodi'n glir beth yw'r gwersi, o fewn a rhwng asiantaethau, sut ac o fewn pa amserlenni y gweithredir arnynt a'r hyn y disgwylir iddo newid o ganlyniad.
 - Cymhwyso'r gwersi hyn i ymatebion y gwasanaeth, gan gynnwys newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau fel y bo'n briodol;
 - Atal dynladdiadau domestig a gwella ymatebion y gwasanaeth i bob dioddefwr trais domestig a'u plant trwy wella gwaith rhwng ac o fewn asiantaethau;
 - Cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais a cham-drin domestig;
 - Tynnu sylw at arferion da.

Yn ogystal â'r broses adolygu, rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am yr unigolyn mewn perygl a/neu aelodau'r teulu'n hysbys ac wedi cael eu hystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a phenderfynu gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'r oedolyn mewn perygl, y teulu, a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r unigolyn mewn perygl.
- A oedd y camau a nodwyd i ddiogelu'r unigolyn mewn perygl yn gadarn ac yn briodol i'r unigolyn dan sylw a'i amgylchiadau.
- A gafodd y camau gweithredu eu rhoi ar waith, eu monitro, a'u hadolygu'n effeithiol ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a chyflwyno camau amlasiantaethol.
- Yr hyn o ran y camau gweithredu a oedd yn llwyddiannus a'r hyn nad oedd yn llwyddiannus a pham. I ba raddau y gwnaeth asiantaethau herio ei gilydd o ran effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd yn erbyn amcanion cytunedig ar gyfer yr unigolyn mewn perygl. A ddilynwyd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol.
- A gyflawnwyd dyletswyddau statudol yr asiantaethau oedd yn gweithio gyda'r unigolyn a'i deulu.
- A gafwyd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).



Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/wyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio amserlen a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau uniongyrchol sydd eisoes wedi'u cymryd.
- Llunio amserlen gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau.
- Cynllunio gydag adolygydd/wyr ddigwyddiad/au dysgu ar gyfer ymarferwyr, i gynnwys nodi pwy sy'n dod, a threfniadau i'w paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr drefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad ADUS drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i gyflawni, yr ymdriniwyd â'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw ddysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i gyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adroddiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Sicrhau bod y Panel Adolygu yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Y Bwrdd yn anfon y rhain at yr asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru (ac mewn achosion o ddynladdiadau domestig, y Swyddfa Gartref).
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut caiff gwelliannau a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth eu nodi, eu monitro, a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd a gwefan Hyb Cydlynu'r ADUS.
- Cytuno i'w ddisbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio'r holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i ddi-ddordeb y cyfryngau o ran yr adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

Pan fydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cynnwys Dynladdiad Domestig, cyfeiriwch at y canllawiau Cylch Gorchwyl yn y *Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer cynnal Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig (2016)*²².

²² [Canllawiau Statudol Amlasiantaethol](#)



Rhestr Termau

CAAR

Mae CAAR yn gyfarfod lle rhennir gwybodaeth am yr achosion risg uchaf o gam-drin domestig rhwng cynrychiolwyr yr Heddlu Lleol, iechyd, amddiffyn plant, ymarferwyr tai, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (CTDAau), y gwasanaeth prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol.

CAAR FRYS

Cyfarfod untro pwrpasol y gall unrhyw un o'r asiantaethau partner ei alw, lle mae'r achos yn risg uchel a'r risgiau yn golygu na all aros am ddyddiad y cyfarfod CAAR nesaf a drefnwyd. Yn ogystal â cham-drin domestig, gellir galw'r rhain hefyd ar gyfer achosion sy'n ymwneud â Chamfanteisio / Masnachu Pobl.

Cyfarfod Trafod Dyddiol Cam-drin Domestig

Cyfarfod partneriaeth dyddiol sy'n trafod achosion Cam-drin Domestig y mae asiantaethau wedi tynnu sylw atynt dros y 24 awr ddiwethaf. Yn y cyfarfod, trafodir amgylchiadau'r achos yn fyr, a chytunir ar gamau gweithredu/mesurau diogelu ar unwaith er mwyn i bartneriaid eu rhoi ar waith. Ar ôl i achosion gael eu trafod gellir eu rhestru hefyd i'w trafod yn y cyfarfod CAAR nesaf.

Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd

Mae'n **orfodol** i staff Heddlu De Cymru gyflwyno'r rhain ar gyfer

POB plentyn sydd yn y ddalfa neu'n destun presenoldeb gwirfoddol.

POB plentyn risg uchel sydd ar goll.

POB plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yr adroddir ei fod ar goll, Polisi Pobl ar Goll ac Amddiffyn Plant ar BOB

POB achos o Gam-drin Domestig (gan gynnwys YSA / Priodas dan Orfod)

POB achos o bryder am blentyn / CRhB / CTB / sy'n agored i niwed

POB oedolyn sy'n agored i niwed / oedolyn mewn perygl

POB achos o broblemau Iechyd Meddwl

Llys Trais Domestig Arbenigol

Gwrandawiadau llys ynadon sydd wedi'u haddasu'n arbennig, a gynlluniwyd i wella erlyn achosion trais domestig a gwella boddhad diogelwch dioddefwyr.



Adran 62 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Darparodd adran 62 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl y gellir rhoi triniaeth sy'n angenrheidiol ar unwaith i achub bywyd y claf, neu i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr y claf sy'n cael ei gadw'n gaeth, heb yr angen am ganiatâd neu ail farn.

Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Bwriad ôl-ofal Adran 117 yw darparu digon o gymorth i unigolyn sydd wedi cael ei gadw'n orfodol fel y gall adael yr ysbyty a dychwelyd i'w gartref, neu lety arall, mewn modd sy'n lleihau'r risg o ddirywiad yn ei iechyd meddwl a'r tebygolrwydd y bydd angen iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty ymhellach i gael triniaeth. Byddai cyfarfod adran 117 yn adolygu'r trefniadau ôl-ofal presennol ac yn cynnwys y person yr effeithir arno gan adran 117, ei deulu, a'r clinigwyr dan sylw.

Gofyn a Gweithredu

Mae Gofyn a Gweithredu yn ymrwymiad gan Llywodraeth Cymru i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n broses o ymchwilio penodol i'w harfer ar draws yr awdurdodau perthnasol (fel a enwir yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) i nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a chymryd camau gweithredu yn ei erbyn.

Dyfodol

Mae Dyfodol yn arbenigwyr profiadol ar gamddefnyddio sylweddau sy'n gweithio ym mhob lleoliad yn y system gyfiawnder yng Nghymru, gan weithio yn nalfeydd yr Heddlu, llysoedd, hybiau cymunedol a charchardai.